



# Adegau Heriol. -

## Cyfle am Newid

Mehefin 2010



Prepared with support from

**Deloitte.**

# Cynnwys

Crynodeb gweithredol .....	2
1. Cyflwyniad a chwmpas .....	7
2. Cefndir .....	10
3. Maintoli'r Bwlch Ariannol yn y Dyfodol .....	16
4. Cau'r Bwlch .....	23

## Atodiadau

Atodiad A – Fframwaith Ddadansoddol

Atodiad B – Astudiaethau Achos

# Rhestr Termau

CSR	Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant
Deloitte	Deloitte MCS Limited
LGPS	Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol
MEG	Prif Grŵp Gwariant
NDR	Ardrethi Annomestig
RGS	Refeniw Grant Cynnal
SBIG	Grant Gwella Adeiladau Ysgolion
SWT	Cymdeithas Trysoryddion Cymru
Y DU	Y Deyrnas Unedig
CLILC	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

# Crynodeb gweithredol

**Mae'r dadansoddiadau yn yr adroddiad hwn wedi nodi bwlch posibl o hyd at £989 erbyn 2013-14 rhwng y gwariant sy'n angenrheidiol i ddarparu gwasanaethau yn eu ffurf bresennol a'r incwm sydd ar gael. Dim ond newid trawsffurfiol o bwys ar lefel holl Sector Cyhoeddus Cymru fydd yn darparu gwasanaethau sy'n bodloni disgwyliadau dinasyddion o fewn yr adnoddau sydd ar gael.**

**Mae'n rhaid i Sector Cyhoeddus Cymru gyflwyno dull cydlynol, strategaethol, systematig a strwythuredig o effeithlonrwydd. Dylai uchelgais yr arweinyddiaeth gyfunol yng Nghymru fod cymaint fel bod cyfrannau sylweddol o'r gofyniad i arbed arian yn y dyfodol yn cael ei gyflawni drwy fwy o effeithlonrwydd.**

## Cyflwyniad a Chwmpas

Comisiynodd SOLACE Cymru waith ymchwil ar raddfa'r bwlch ariannu llywodraeth leol yn y dyfodol a'r gweithrediadau a'r datrysiadau posibl y gellid eu rhoi ar waith i bontio'r bwlch. Y bwriad yw y bydd yr ymchwil hwn yn sbarduno trafodaeth rhwng y teulu llywodraeth leol a Llywodraeth Cynulliad Cymru ac yn darparu llwyfan ar gyfer amlygu dulliau a ffyrdd newydd o weithio er mwyn mynd i'r afael â'r problemau sy'n wynebu llywodraeth leol, gan ddylanwadu ar benderfyniadau polisi ac ariannu; ar lefel genedlaethol a lleol.

## Cefndir


Ers 2005-06 mae llywodraeth leol wedi cyhoeddi £146 miliwn o enillion effeithlonrwydd rheolaidd – rhyw 8% (£10 miliwn) yn uwch na'i darged. Rhagwelwyd y byddai'r rhain yn codi i £186 miliwn erbyn diwedd Mawrth 2009. Ar ben hynny, dros gyfnod y rhaglen Creu'r Cysylltiadau, cafwyd £70 miliwn o enillion effeithlonrwydd achlysurol, a godwyd yn bennaf drwy reoli asedau yn well. Mae rhai awdurdodau yng Nghymru wedi adrodd gwelliannau sylweddol i wasanaethau mewn cysylltiad â'r effeithlonrwydd a enillwyd drwy fabwysyadau dull Meddwl trwy Systemau. Felly mae nifer o'r cyfleoedd mwyaf amlwg o sicrhau effeithlonrwydd eisoes wedi cael eu gwireddu ond mae'n debyg y bydd rhyddhau effeithlonrwydd pellach yn anos ac yn cymryd mwy o amser.

Dylid nodi, fodd bynnag, yn ystod yr un cyfnod yn Lloegr cafwyd cyfraneddol uwch mewn gwariant ar y GIG nag yng Nghymru a phe bai Cynulliad Cymru wedi dilyn yr arweiniad byddai'r angen hyd yn oed yn uwch ar gyfer effeithlonrwydd mewn llywodraeth lleol nag a fu.

Cyflawnwyd yr ymchwil yng nghyd-destun cyfnod o galedi economaidd dirfawr, y derbynnir yn gyffredinol fel y dirwasgiad byd-eang gwaethaf ers yr 1930au. Tra bo'r yr effaith ar lywodraeth leol wedi cael ei ddal yn ôl rhyw gymaint o'i gymharu â rhannau eraill o'r economi disgwylir y bydd pwysau sylweddol i leihau gwariant cyhoeddus dros y blynyddoedd nesaf.

## Maintioli'r Bwlch Ariannol yn y Dyfodol

Mae'r diagram canlynol yn dangos sut y gall y bwlch dyfu rhwng yr incwm sydd ar gael i lywodraeth leol a'r gwariant sydd ei angen i gynnal gwasanaethau ar eu lefel gyfredol. Dangosir tri senario yn yr ymchwil hwn.



Ffynhonnell: Deloitte<sup>1</sup>

Mae bwlch cenedlaethol cronol posibl dros y cyfnod pedair blynedd yn amrywio o £201m o dan y senario craidd gorau i £605 o dan y senario canolig i £989 o dan y senario gwaethaf. Disgwylir y bydd y senario mwyaf tebygol rhwng y canolig a'r gwaethaf sy'n cynrychioli rhwng 11% ac 18% o'r cyllid gros perthnasol.

Bydd yr effaith yn fwy yn y pen draw gan nad yw pwysau ar wasanaethau a newidiadau demograffig wedi'u cynnwys yn y ffigurau uchod a gallant ychwanegu o leiaf £70 arall y flwyddyn at y bwlch. Hefyd,

<sup>1</sup> Tra roedd fersiwn terfynol o'r adroddiad hwn yn cael ei lunio roedd newid Llywodraeth yn San Steffan a allai effeithio ar amseru a graddau'r toriadau i gyllidebau'r sector cyhoeddus a allai effeithio yn ei dro ar y bwlch a nodwyd yn yr adroddiad hwn.

nid yw'r bwllch yn adlewyrchu'r effaith bosibl ar gyllidebau refeniw yn sgil toriadau trychinebus posibl mewn gwariant cyfalaf. Yn olaf, dylai awdurdodau fod yn ymwybodol ei bod yn debygol y bydd y wasgfa ariannol yn para tu hwnt i'r flwyddyn 2013-14.

## Effaith Blwch Ariannol o'r Fath

Bydd effaith y bwllch ariannol rhagamcanol erbyn 2013-14 ar awdurdodau unigol fel a ganlyn:

Maint yr Awdurdod	Achos Gorau £ miliwn	Achos Cymedrol £ miliwn	Achos Gwaethaf £ miliwn
Bach	4.7	14.3	23.3
Canolig	9.1	27.4	44.9
Mawr	17.1	51.6	84.4

*Ffynhonnell: Deloitte*

Ni ellir ymdrin â bwllch achos cymedrol o £605 miliwn drwy wneud toriadau canran bach o gyllidebau gwasanaeth. Bydd angen ail-ffurfweddu gwasanaethau ar raddfa gyfan. Mae hyn yn cynrychioli bron i 11% o wariant cyfredol ar yr holl wasanaethau llywodraeth leol.

Er mwyn ystyried graddfa'r broblem, isod ceir esiamplau dirfawr o'r mesurau y gellir eu mabwysiadau:

- diffodd holl oleuadau'r stryd, torri'r holl wariant ar drafndiaeth gyhoeddus, rhoi'r gorau i gynnal a chadw ffyrdd yn y gaeaf: byddai arbedion o £300 yn cael eu gwneud; hefyd
- cau llyfrgelloedd, canolfannau hamdden a theatrau a rhoi'r gorau i gynnal a chadw parciau: byddai arbedion pellach o £300 miliwn yn cael eu gwneud.

Mae'r enghreifftiau uchod wedi'u dewis i ddangos graddfa a chyd-destun maint y bwllch ac amlygu'r her sy'n wynebu llywodraeth leol yng Nghymru wrth gynnal gwasanaethau cyhoeddus craidd. Ni fyddai cyfanred yr enghreifftiau uchod yn ddigonol i gyfartalu â'r bwllch a nodir yn y senario gymedrol, ond byddai'n cwrdd â dim ond hanner yr arbedion sydd eu hangen yn y senario achos gwaethaf.

Y cyfanswm cyllideb refeniw gros ar gyfer Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru ar gyfer 2009-10 yw £3,900 miliwn sy'n fwy na 50% o'r cyfanswm gwariant. Felly bydd ail-ffurfweddu'r gwasanaethau hyn yn gydrannau hanfodol o unrhyw gynlluniau i ymdrin â'r bwllch. Byddai ymdrin â'r diffyg yn yr achos cymedrol trwy doriadau cyllideb addysg yn arwain at 13,850 llai o athrawon (sef 22 disgybl arall i bob athro).

I ymdrin â'r bwllch yn yr achos cymedrol trwy godi trethi byddai angen cynnydd o 15% yn y Dreth Gyngor yn y cyfnod 2010-11 i 2013-14.

## Cau'r Bwllch

Ni all yr adroddiad ragweld yn gywir yr union ddiffyg ariannol, ar sail flynyddol, a fydd yn wynebu awdurdodau lleol unigol a theulu llywodraeth leol Cymru gyfan. Mae, fodd bynnag, yn cyfleu darlun o faint digynsail yr her sy'n wynebu awdurdodau lleol yng Nghymru.

Mae hefyd yn amlwg y bydd y broblem hon yn herio llywodraeth leol am beth amser - mae'r amcangyfrifon diweddaraf o Sefydliad Astudiaethau Cyllidol yn rhagweld y bydd cyfyngiadau gwariant adrannol yn y DU yn lleihau gan 11.9% mewn termau real dros y pum mlynedd nesaf. Mae hefyd yn nodi mai hyn fyddai'r pum mlynedd ddilynol gyntaf o doriadau real ers cychwyn y data yn 1948-49. Caiff y broblem ei gwaethygu drwy gynnydd sylweddol yn y galw am wasanaethau cyhoeddus oherwydd pwysau demograffig a fyddai'n cynyddu'n sylweddol o 2015 ymlaen.

Felly, mae awdurdodau lleol, a gweddill y sector cyhoeddus yng Nghymru, yn wynebu her enfawr os ydynt am ymdrin â chyfyngiadau gwariant cyhoeddus yn y dyfodol yn y tymor byr, canol a hir. Sut fydd y difrod yn cael ei leihau a'r cyfleoedd yn cael eu defnyddio o'r dirwedd ariannol sy'n dod i'r amlwg?

Ymddengys bod arweinyddiaeth awdurdod lleol, yn unigol ac fel teulu ac o fewn cyd-destun arweinyddiaeth sector cyhoeddus, â dau ddewis:

- Y cyntaf yw cyflymu mentrau o fewn y fframwaith cyfredol a newydd. Mae'r dewis yn annhebygol o gynhyrchu datrysiad optimwm. Er bod llywodraeth leol Cymru wedi gwneud arbedion effeithlonrwydd o £186m ers 2005-06 sy'n beth da mewn termau hanesyddol, byddai perfformiad cyflymedig o'r sail hwn yn dal i adael bwllch arbedion gweddilliol sylweddol y byddai rhaid eu bodloni gan doriadau mewn gwasanaethau.
- Dull arall yw bod yn llawer mwy radical a chyflwyno dull cydlynol, strategol, systematig a strwythuredig i effeithlonrwydd yn sector cyhoeddus Cymru. Fel y byddai rhai o'r datrysiadau posibl yn lleol yn cynnwys dull mwy integredig a systematig rhwng cyrff cyhoeddus (e.e. Total Place) mae angen yr un ffordd o feddwl yn genedlaethol.

Dylai uchelgais yr arweinyddiaeth gyfunol yng Nghymru fod cymaint fel bod cyfrannau sylweddol o'r gofyniad i arbed arian yn y dyfodol yn cael ei gyflawni drwy fwy o effeithlonrwydd.

I gyflawni hyn, mae angen datblygu gweledigaeth a strategaeth gymhellol ac uchelgeisiol i wella effeithlonrwydd mewn llywodraeth leol mewn partneriaeth â llywodraeth genedlaethol. Byddai hyn yn darparu sail ar gyfer comisiynu'n strategol ganlyniadau effeithlonrwydd ar hyd a lled llywodraeth leol Cymru. I'r dull hwn lwyddo mae'n rhaid ei baru â dull canolbwytiedig ac uchelgeisiol o gyflenwi gwasanaethau.

Mae sbarduno newid yng nghyfeiriad meddwl llywodraeth leol yng Nghymru, sydd eisoes ar y gweill, i un â dealltwriaeth well o sut mae llywodraeth leol yn ychwanegu gwerth i ddinasyddion yn hanfodol i gefnogi'r newidiadau strwythurol arfaethedig uchod.

Mae angen rhoi mwy o ryddid a gallu i awdurdodau lleol mewn perthynas â sut maent yn creu canlyniadau gwasanaeth e.e. mae plethora o grantiau penodol yn ddrud ac yn amharu ar arloesi yn lleol. Mae angen i Lywodraeth Leol gomisiynu ar gyfer canlyniadau ar y lefel uchaf ac yna gyfrannu at hinsawdd a fframwaith sy'n caniatáu i eraill gyflawni. Mae angen hefyd ail-edrych ar y plethora o flaenoriaethau a mentrau sy'n bodoli eisoes er mwyn dilyn rhaglen fwy realistig dros y blynyddoedd nesaf.

Yn amlwg, mae angen gwell dealltwriaeth ynglŷn â'r ffordd y mae bob haen o lywodraeth yn ychwanegu gwerth ac i'r sefydliadau newid o ganlyniad.

## Casgliad

O ystyried y bwllch arbedion posibl yn y tymor canolig, dim ond newid trawsffurfiol all gyflenwi gwasanaethau sy'n bodloni disgwyliadau dinasyddion gyda'r adnoddau sydd ar gael. Bydd rhaid i'r Sector Cyhoeddus yng Nghymru feddwl mewn ffordd go wahanol a dechrau gweithredu ar unwaith.

Dyma'r amser i ystyried newid o'r fath gan fod cyrff cyhoeddus yn fwy a mwy realistig ynghylch hyd a lled yr heriau sy'n eu hwynebu ac mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi dechrau mabwysiadu dull newydd o ymgysylltu a chyrrff cyhoeddus.

Mae angen i'r arweinyddiaeth gyfunol yn y Sector Cyhoeddus Cymreig gomisiynu targedau uchelgeisiol ar gyfer arbedion effeithlonrwydd. Gellir meithrin dull mwy canolbwytiedig, systematig a strategol drwy greu'r strwythur angenrheidiol i gefnogi hyn yn nhermau comisiynu, cyflenwi ac ymglymu. Er hynny, ni fydd newid strwythur yn gwneud y tro. I gyd-fynd a hyn mae angen newid yng nghyfeiriad meddwl yr arweinyddiaeth sector cyhoeddus cyfunol wedi'i symbylu gan weledigaeth o un gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer dinasyddion yng Nghymru.

I hyn weithio mae angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru a theulu llywodraeth leol ail-asesu'r ffordd orau o gyflawni eu rôl ac ychwanegu gwerth. Byddai'n arwain at newid yn y pwyslais yng ngwaith y cyrff dan sylw.

Byddai mabwysiadu dull mwy strategol, systematig a strwythuredig o drin arbedion effeithlonwydd ar draws y Sector Cyhoeddus Cymreig yn gyfan gwbl yn caniatáu i Gymru fanteisio mwy o'r potensial o lywodraethu gwlad fechan.



# 1. Cyflwyniad a chwmpas

**Comisiynodd SOLACE Cymru waith ymchwil ar raddfa bwlch ariannu llywodraeth leol yn y dyfodol a'r gweithrediadau a'r datrysiadau posibl y gellid eu rhoi ar waith i bontio'r gagendor. Y bwriad yw y bydd yr ymchwil hwn yn sbarduno trafodaeth rhwng y teulu llywodraeth leol a Llywodraeth Cynulliad Cymru ac yn darparu llwyfan ar gyfer amlygu dulliau a ffyrdd newydd o weithio er mwyn mynd i'r afael a'r problemau sy'n wynebu llywodraeth leol, gan ddylanwadu ar benderfyniadau polisi ac ariannu; ar lefel genedlaethol a lleol.**

## Cyflwyniad

- 1.0 Comisiynodd SOLACE Cymru'r project ymchwil hwn gyda chefnogaeth:
  - Llywodraeth Cynulliad Cymru;
  - Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC); a
  - Chymdeithas Trysoryddion Cymru (SWT).
- 1.1 Nod yr ymchwil yw:
  - asesu'r bwlch posibl rhwng incwm disgwylidig a gwarian disgwylidig (a thybio na fydd unrhyw newid o ran gwasanaeth ar wahân i newid demograffig a newid polisi y gwyddys amdano);
  - ymchwilio i effaith bosibl y bwlch; a
  - nodi ystod eang o gyfleoedd ar gyfer ymdrin â'r blwch.
- 1.2 Bwriad SOLACE Cymru yw y bydd yr ymchwil yn sbarduno trafodaeth ymhlith teulu llywodraeth leol a Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn ogystal â thu hwnt. Bwriad yr ymchwil yw darparu fframwaith a fydd yn arwain at amlygu dulliau a ffyrdd newydd o weithio i fynd i'r afael a'r broblem, gan ddylanwadu ar benderfyniadau polisi ac ariannol ar lefel genedlaethol a lleol.
- 1.3 Yn ychwanegol, rhagwelir y bydd yr ymchwil yn dod yn ddeunydd cyfeiriol defnyddiol i aelodau SOLACE yn eu hawdurdodau unigol.
- 1.4 Penodwyd Deloitte MCS Limited (Deloitte) i roi cymorth i SOLACE Cymru gyda dadansoddi, asesu a nodi ystod eang o syniadau i sbarduno'r gwaith o feddwl am ffyrdd o fynd i'r afael â'r problemau ariannol a nodwyd.

## Cwmpas

- 1.5 Mae'r adroddiad hwn yn asesu'r raddfa bosibl o ran lleihau adnoddau refeniw ar gyfer llywodraeth leol Cymru ac effaith y bwlch ariannu yn ystod y pedair blynedd sy'n cychwyn yn 2010 -11. Rhoddir rhywfaint o ystyriaeth i oblygiadau refeniw yn sgil newid adnoddau cyfalaf ar gael. Mae'n amlygu posibiliadau er mwyn sbarduno dull gwahanol o weithredu cynlluniau ar gyfer mynd i'r afael â'r bwlch ariannu o fewn y teulu llywodraeth leol a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

- 1.6 Ar gyfer dibenion yr adroddiad hwn, ac eithrio lle bu'n bosibl i gadarnhau gwybodaeth, tybir fod yr wybodaeth a ddarparwyd ar gyfer yr ymchwil yn ddibynadwy a chyflawn. Nid oedd cwmpas yr ymarfer yn ymestyn at archwilio'r data a ddarparwyd.

## Dull a Methodoleg

- 1.7 Mae'r adran ganlynol yn esbonio camau'r project fesul cam a chanlyniad disgwylidig pob cam. Camau'r project oedd:

- Cychwyn y Project
- Paratoi Dadansoddiad Blwch Ariannu
- Paratoi Asesiad Effaith
- Paratoi Asesiad Cyfle
- Paratoi Adroddiad Terfynol

- 1.8 Ceir trosolwg o gynhyrchion y project sy'n cefnogi'r gwaith o baratoi'r adroddiad terfynol isod.

### **Cychwyn y Project**

- 1.9 Roedd y cam Cychwyn y Project yn cynnwys paratoi dogfen gychwynnol a oedd yn esbonio'r cynllun ar gyfer y project a gytunwyd gan grŵp project SOLACE Cymru.

### **Dadansoddiad Blwch Ariannu**

- 1.10 Yn y cam hwn, casglwyd, cymharwyd a dadansoddwyd y data a ddefnyddiwyd yn sail i'r canfyddiadau. Penderfynwyd ar y fframwaith dadansoddol a fyddai'n sail i'r ymchwil, er mwyn esbonio ffynonellau'r data gwaelodlin, rhagdybiaethau, dyddiadau sylfaenol, diffiniadau o'r data a ddefnyddiwyd ac unrhyw gyfyngiadau neu broblemau o ran y data. Cymeradwyodd y Grŵp Project y fframwaith dadansoddol fel sail i'r dadansoddi a'r canfyddiadau.

- 1.11 Ar sail y fframwaith dadansoddol paratowyd dadansoddiad blwch ariannu. Roedd y dadansoddiad blwch ariannu yn asesu'r blwch posibl rhwng y lefel ariannu ddisgwylidig ar gyfer gwasanaethau llywodraeth leol yng Nghymru a'r gwariant sydd ei angen i'w cynnal fel ag y maent ar hyn o bryd.

- 1.12 Roedd y cam hwn yn nodi effaith newid demograffig a newidiadau polisi y gwyddys amdanynt a fydd yn effeithio ar gynlluniau incwm a gwariant Cyngorau dros y bum mlynedd nesaf. Rhoddwyd i ba raddau y bydd y rhain yn effeithio ar y blwch ariannu ar brawf gan ddefnyddio dadansoddiad sensitifrwydd a nododd: y senario ariannol gorau posib; y senario ariannol waethaf a senario ariannol cymedrol.

- 1.13 Y cynnyrch olaf oedd asesiad blwch ariannu a oedd yn crynodebu'r dadansoddiad a gyflawnwyd.

### **Asesiad Effaith**

- 1.14 Wrth i ganfyddiadau'r dadansoddiad blwch ariannol ddechrau dod i'r amlwg, aethpwyd ati i ymgymryd â'r gwaith o asesu effeithiau'r blwch ariannu ar gyflenwi gwasanaethau llywodraeth leol. Rhoddodd yr asesiad effaith ystyriaeth uchel i'r canlynol:

- Effeithiau neu bwysau ar ddarparu gwasanaethau o ganlyniad i fylchau ariannu yn ystod blynyddoedd blaenorol.
- Asesiad o lefel yr arbedion effeithlonrwydd a roddwyd ar waith yn flaenorol a ph'un ai a oeddent yn debygol o gynhyrchu arbedion yn y dyfodol.
- Effeithiau disgwylidig y senarios blwch ariannu a nodwyd yn yr asesiad blwch ariannu ar: Gyflenwi gwasanaethau llywodraeth leol yng Nghymru yn gyffredinol; gwasanaethau

penodol ar draws llywodraeth leol, yn enwedig y Gwasanaethau Cymdeithasol, Addysg a'r Amgylchedd.

- 1.15 Ymchwil desg oedd yr asesiad a wnaed gyda'r ymchwil a oedd ar gael ar y pryd a ddilyswyd drwy'r rhaglen ymgynghori rhanddeiliad gyda'r Prif Weithredwyr, Cymdeithas Trysoryddion Cymru, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol.

#### **Asesiad Cyfle**

- 1.16 Roed y cam hwn yn ystyried ystod o bosibiliadau y gellid eu defnyddio i liniaru effeithiau'r blwch ariannu. Roedd yr ymchwil yn rhoi ystyriaeth i'r canlynol:
- i ba raddau y byddai cyfleoedd 'enillion cyflym' yn troi arbedion yn arian i gau'r blwch;
  - cynigion a nodwyd yn ystod gweithdai rhanddeiliad;
  - rhaglenni effeithlonrwydd llwyddiannus a modelau darparu gwasanaethau a roddwyd ar waith mewn Llywodraeth Leol yng Nghymru ac ar draws gweddill y DU;
  - effeithlonrwydd a gyflawnwyd mewn sefydliadau sector cyhoeddus a phreifat eraill;
  - enghreifftiau o arferion arweiniol o arloesi mewn darparu gwasanaethau sector cyhoeddus a gyflawnwyd yn y DU ac, os yn berthnasol, yn fyd-eang;
  - amrywio disgwyliadau dinasyddion mewn perthynas â gwasanaethau llywodraeth leol.
- 1.17 Yn y cam hwn nodwyd hefyd y rhwystrau tebygol o ran gweithredu yng Nghymru.

## 2. Cefndir<sup>2</sup>

**Ers 2005-06 mae llywodraeth leol wedi cyhoeddi £146 miliwn o enillion effeithlonrwydd rheolaidd – rhyw 8% (£10 miliwn) yn uwch na'i darged. Nid yw'r cyflawniad sylweddol hwn yn golygu bod nifer o'r cyfleoedd arbed arian mwyaf amlwg wedi cael eu gwireddu. Mae'r Deyrnas Unedig wedi bod trwy'r dirwasgiad byd-eang gwaethaf ers y 1930au a thra bod yr effaith ar y sector cyhoeddus wedi'i dal yn ôl rhyw gymaint o'i gymharu a rhannau eraill o'r economi, bydd angen gwneud toriadau sylweddol yng ngwariant sector cyhoeddus yn y dyfodol i fynd i'r afael â'r twf ym menthyciadau'r llywodraeth.**

### Cyd-destun ariannol

- 2.0 Mae 22 o awdurdodau lleol yn darparu gwasanaethau i dair miliwn o ddinasyddion sy'n byw yng Nghymru – mae 570,000 o'r rheiny o dan un ar bymtheg oed, 630,000 wedi ymddeol ac mae 1.8 miliwn yn bobl o oedran gweithio. Rhyngddynt mae'r awdurdodau hyn yn darparu ystod eang o wasanaethau statudol ac anstatudol - llawer ohonynt sy'n cael lle blaenllaw yng nghytundeb strategaeth Cymru'n Un rhwng Grwpiau Llafur a Phlaid Cymru yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn nhermau gwariant y meysydd pennaf o ran darparu gwasanaethau llywodraeth leol yw addysg, gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau amgylcheddol.
- 2.1 Mae awdurdodau lleol yn derbyn arian refeniw o nifer o ffynonellau gan gynnwys grant llywodraeth ganolog, ardrethi busnes, y dreth gyngor ac incwm y maent ei gynhyrchu eu hunain. Mae'r arian llywodraeth ganolog y maent yn ei dderbyn yn cynrychioli tua 30% o gyllid blynyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- 2.2 Mae awdurdodau lleol yn cynhyrchu 18% o'u harian refeniw o ffioedd a thaliadau ac elw a enillwyd ar fuddsoddiadau.

### Cyd-destun Refeniw Hanesyddol


- 2.3 Ers 2005-06, mae llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cynnwys yng nghyfrifiad setliad refeniw llywodraeth leol brigdorriad rheolaidd o 1% ar y sail rhagdybiaeth y bydd llywodraeth leol yn cynhyrchu'r enillion effeithlonrwydd angenrheidiol i reoli'r gostyngiad hwn. Mae hyn yn golygu cyfanswm cynyddol o £136 miliwn.
- 2.4 Yn y cyfnod hwn mae llywodraeth leol wedi cyhoeddi swm sylweddol o £146 miliwn o enillion effeithlonrwydd rheolaidd – rhyw 8% (£10 miliwn) yn uwch na'i darged. Rhagwelwyd y byddai'r rhain yn codi i £186 miliwn erbyn diwedd Mawrth 2009. Hefyd, dros gyfnod rhaglen Creu'r Cysylltiadau, cafwyd £70 miliwn o enillion effeithlonrwydd achlysurol, yn deillio'n bennaf o reoli asedau'n well.
- 2.5 Mae'r gwaith o fantoli cyllidebau awdurdodau lleol Cymru mewn cyfnod lle gwelir setliadau gostyngol a galw cynyddol am wasanaethau yn cael ei reoli drwy gynlluniau effeithlonrwydd (ac arbedion) gwerth £102 miliwn yn 2009-10, sy'n gyfwerth â 2.1 y cant.
- 2.6 Mae rhai awdurdodau yng Nghymru wedi dweud eu bod wedi gweld gwelliannau sylweddol mewn gwasanaethau ac effeithlonrwydd yn sgil mabwysiadu dull Meddwl trwy Systemau.

---

<sup>2</sup> Mae Deloitte yn cydnabod bod llawer o'r cefndir hwn wedi dod o Adroddiad Is-grŵp Gwariant (ESG) Mehefin – roedd ESG yn cynnwys cynrychiolwyr o CLIC, Llywodraeth Leol a Llywodraeth Cynulliad Cymru

2.7 Mae Ffigur 2a yn dangos y codiad canrannol yn referniw ariannu llywodraeth ganol a dderbyniwyd gan awdurdodau lleol ers 2006-07 ac mae hwn wedi cael ei gymharu â'r codiad a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru<sup>3</sup>.

**Ffigur 2a – Cymhariaid Twf Cyllid Refeniw: Llywodraeth Cynulliad Cymru Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) a Chyllid Allanol Cyfun (AEF) 2006-07 i 2010-11**



2.8 Mae Ffigur 2 yn rhoi sylw i effaith penderfyniadau dyrannu adnoddau diweddar ar setliad llywodraeth leol yng Nghymru ac yn dangos y cynnydd yn setliad referniw llywodraeth leol (AEF) a chymharu hwnnw â'r cynnydd yng nghyllid cyfan (DEL) Llywodraeth Cynulliad Cymru. Cydnabyddir, hyd yn oed yn ystod cyfnodau o lewyrch o ran gwariant cyhoeddus, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gorfod gwneud penderfyniadau anodd ynglŷn â'r flaenoriaeth gyffredinol ar gyfer twf gwariant dros ystod eang o wahanol raglenni a meysydd e.e. iechyd, yr economi, addysg bellach ac uwch ayyb.

2.9 Mae'r cynnydd o 2.1% yn y grant cynnal referniw ar gyfer 2010-11 a gyhoeddwyd yng nghyllideb ddrafft Cynulliad Cymru (Hydref 2009) yn uwch na'r 1.3% gwreiddiol a bennwyd yng nghyllideb ddangosol Cynulliad Cymru ar gyfer 2010-11. Mae hyn yn dangos bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn deall y pwysau sydd ar lywodraeth leol yng Nghymru.

2.10 Mae awdurdodau lleol Cymru wedi elwa o'r cynnydd mewn adnoddau mewn meysydd rhaglenni penodol a flaenoriaethwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Er enghraifft, dros y blynyddoedd diwethaf mae awdurdodau wedi gweld cynnydd sylweddol mewn adnoddau ar gyfer cytundeb baich gwaith athrawon a'r agenda wastraff.

2.11 Wrth gydnabod y cafwyd cynnydd ariannol mewn meysydd penodol, nid yw'r cynnydd gweddilliol cyffredinol mewn grantiau, ar ôl bodloni'r ymrwymadau hyn, wedi bod yn ddigon i gwrdd â'r pwysau cyffredinol ar gyllidebau yn sgil newidiadau demograffig, pwysau ar wasanaethau a chwyddiant awdurdod lleol. Felly mae'r awdurdodau wedi gorfod gwneud arbedion i gau'r bwlch ariannu. I rai awdurdodau, mae'r broblem gyllido cyffredinol wedi cael ei gwaethygu gan

<sup>3</sup> Ffigurau wedi'u cymryd o dablau Cyllideb Derfynol Llywodraeth Cynulliad Cymru

ostyngiadau mewn cyllid yn sgil newidiadau i'r fformiwla cyllido genedlaethol a ddefnyddir i ddsbarthu cyllid Cyngor i awdurdodau unigol.

- 2.12 I gwrdd â'r pwysau ariannol presennol, mae llawer o'r cyfleoedd amlycaf ar gyfer effeithlonrwydd neu gymorth cyllido eisoes wedi'i gwireddu ac mae rhyddau effeithlonrwydd pellach yn debygol o fod yn anodd a chan gymryd mwy o amser. Bydd rhaid gwneud arbedion drwy enillion effeithlonrwydd pellach, lleihau darpariaeth gwasanaeth, torri swyddi a chynyddu ffioedd a thaliadau.
- 2.13 Deallir bod awdurdodau lleol yng Nghymru yn rhagweld colli 2,000 o swyddi yn y dyfodol agos a'r disgwyl yw y bydd rhagor wrth iddynt weld effaith llawn y cyfyngiadau ar wariant cyhoeddus yn y tymor-canolog.
- 2.14 Mae'n gyfrifoldeb statudol ar awdurdodau lleol i bennu a chynnal cronfeydd wrth gefn i sicrhau y gallant gwrdd â'u hanghenion ariannol yn y dyfodol. Mae'r mwyafrif o gronfeydd wrth gefn awdurdodau lleol wedi'u clustnodi ar gyfer pwrpasau penodol, fel cynlluniau ad-drefnu ysgolion, ac felly nid ydynt ar gael i'w defnyddio mewn ffyrdd eraill.
- 2.15 Mae awdurdodau lleol hefyd yn cadw cyllid wrth gefn, sy'n debyg i gyllid wrth gefn Llywodraeth Cynulliad Cymru, a chaiff y rhain eu pennu yn ôl amgylchiadau lleol, i ddelio â digwyddiadau annisgwyl (llifogydd, er enghraifft) neu lefelau gwariant anrhagweladwy (e.e. cyflogau cyfartal). O ganlyniad i'r pwysau cyfredol ar gyllidebau mae awdurdodau lleol yng Nghymru wedi dechrau defnyddio'r arian wrth gefn; rhwng 2005-06 a 2008-09 defnyddiodd awdurdodau lleol £85 miliwn o arian wrth gefn i falansio eu cyllidebau<sup>4</sup>. Disgwylir y bydd £29 miliwn pellach yn cael ei ddefnyddio ym 2009-10 ac mae'n amlwg nad yw defnyddio cronfeydd wrth gefn i bontio'r bwch referniw rheolaidd yn gynaliadwy.

### Cyd-destun Hanesyddol Cyfalaf

- 2.16 Mae awdurdodau lleol yn berchen ar ac yn rheoli portffolio asedion sylweddol gan gynnwys:
- ysgolion;
  - canolfannau hamdden;
  - mynwentydd;
  - amddiffynfeydd môr;
  - theatrau;
  - llyfrgelloedd;
  - ffyrdd; a
  - pharciau.
- 2.17 Mae cyflwr yr asedion hyn yn cael effaith sylweddol ar ansawdd gwasanaeth, hygyrchedd, profiad dinasyddion o wasanaethau a'r ffordd y mae'r cyhoedd a busnesau yn gweld cymuned.
- 2.18 Mae tan-fuddsoddiad yn yr asedion hyn dros nifer o ddegawdau tua diwedd yr 20fed ganrif wedi arwain at ddirywiad ac yn y cyfrifiad olaf ym 2006 nodwyd bod bwch cyllido cyffredinol o fwy na £4.3 biliwn o ran buddsoddiad cyfalaf llywodraeth leol ar y pryd<sup>5</sup>.
- 2.19 Mae Cyllideb Drafft Llywodraeth Cynulliad Cymru 2010-11 yn dangos mai cyllidebau cyfalaf Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) ym 2010-11 fydd £1.4 biliwn, sef £365 miliwn yn llai nac ym

<sup>4</sup> WLGA Survey of authorities March 2009 – data collection completed by the Local Government Data Unit

<sup>5</sup> Managing the Funding Gap, PricewaterhouseCoopers, August 2006


2009-10. Mae hyn yn ostyngiad o 21% o 2009-10. Dylid nodi bod £120m ohono oherwydd projectau cyfalaf a oedd yn cychwyn mewn blynyddoedd cynnar i gefnogi'r Cynulliad Cenedlaethol.

2.20 Mae'r dirwasgiad wedi cael effaith ar werth asedau yng Nghymru ac mae'r farchnad i awdurdodau lleol gael gwared ar asedau ac ail-fuddsoddi'r elw mewn asedau newydd bellach yn gyfyngedig. Felly bydd gostyngiad yng ngwariant llywodraeth ar raglenni cyfalaf ynghyd a gostyngiad yn y gallu i godi arian cyfalaf drwy gael gwared ag asedion yn ei gwneud yn anodd gau'r blwch buddsoddi sydd ohoni.

### Cyd-destun Cenedlaethol


- 2.21 Mae cyfuniad o ddiffyg strwythurol mewn arian cyhoeddus, gwasgfa gredyd ac effaith y dirwasgiad presennol wedi arwain at fwlch anghynladwy mewn arian cyhoeddus.
- 2.22 Eleni rhagwelir y bydd benthycia net y sector cyhoeddus yn cyrraedd uchafbwynt o dros 12% CMC (cynnyrch mewnwladol crynswth), sef y lefel uchaf o fenthycia blynyddol ers yr Ail Ryfel Byd (Institute of Fiscal Studies). Yn ôl amcangyfrifon mis Hydref o Sefydliad Cenedlaethol Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, mae'r economi bellach wedi gostwng 6% ers cyrraedd ei huchafbwynt diwethaf yng Ngwanwyn 2008.

**Ffigur 2b – Proffil y Dirwasgiad: Y Misoedd o ddechrau'r Dirwasgiad**



- 2.23 Mae'r Llywodraeth yn bwriadu mynd i'r afael â'r broblem drwy leihau benthycia net blynyddol i 5.5% o'r incwm cenedlaethol yn 2013-14. Bydd tua 80% o'r wasgfa gyllidol er mwyn cyflawni'r targed hwn yn dod o ostyngiadau mewn gwariant cyhoeddus gyda'r 20% arall yn dod o gynnydd mewn treth.
- 2.24 Yn gyffredinol, mae'r sector cyhoeddus yn y DU wedi profi degawd o dwf mewn termau real. Bydd haelioni'r 10 mlynedd diwethaf yn ei gwneud yn fwy anodd i'r sector cyhoeddus addasu i'r tloidi cymharol a ragwelir yn y dyfodol. Adlewyrchir llymdra'r newid yn y tabl isod.

**Ffigur 2c – Cyfanswm y gwarian a reolir, DU, 2000-01 i 2013-14, % cynnydd o flwyddyn i flwyddyn.**



- 2.25 Mae ffigur 2c yn adlewyrchu'r cynlluniau yn y gyllideb i leihau'r cynnydd presennol mewn gwariant mewn termau real i 0.7% y flwyddyn rhwng 2011-12 a 2013-14. Mae hyn yn cymharu â'r cyfartaledd o 5% y flwyddyn ar gyfer degawd cyntaf y ganrif. Fodd bynnag, mae'r cynnydd cyffredinol hwn o 0.7% yn cuddio'r ffaith y bydd ariannu dyled, nawdd cymdeithasol a meysydd gwariant penodol eraill a reolir yn flynyddol yn cynyddu llawer mwy na 0.7% y flwyddyn.
- 2.26 O ganlyniad, mae amcangyfrifon diweddaraf Sefydliad yr Astudiaethau Cyllidol yn awgrymu y bydd terfynau gwariant adrannol y DU yn lleihau ar gyfartaledd o 2.9% y flwyddyn dros gyfnod o dair blynedd i 2013-14. Mae terfynau gwariant adrannol y DU yn cwmpasu ystod eang o feysydd rhaglen gan gynnwys amddiffyn, iechyd, Cymru, yr Alban ac ati. Nid yw'n bosibl i fod yn gwbl fanwl yn yr adroddiad hwn ynghylch sut y bydd y sefyllfa yn y DU yn effeithio yn y pen draw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru ac o ganlyniad awdurdodau lleol yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r rhagdybiaethau yn yr adroddiad hwn yn adlewyrchu pa mor ddifrifol yw'r sefyllfa y cyfeiriwyd ati mewn paragraffau blaenorol.
- 2.27 Mae perygl y bydd rhai o'r pwysau gwleidyddol a sefydliadol sy'n dod i'r amlwg i gyflymu'r gwaith o dynhau cyllidol yn llwyddo. Byddai hynny'n golygu dod a rhywfaint o'r tynhau cyllidol a gynlluniwyd ar gyfer y llywodraeth bresennol ar gyfer y cyfnod 2014-15 i 2017-18 yn ei flaen, a'i roi ar waith ym 2010-11 i 2013-14 (h.y. ar ben y tynhau cyllidol difrifol a gynlluniwyd eisoes ar gyfer y cyfnod hwn).
- 2.28 Beth bynnag fydd y sefyllfa yn y pen draw o ran amseru'r wasgfa gyllidol, mae'r effaith ar lywodraeth leol yn llwm. Wrth i incwm Cyngorau leihau'n sylweddol, bydd y galw am eu gwasanaethau yn dal i dyfu. Bydd hyn yn digwydd drwy gyfuniad o bwysau demograffig cynyddol ac effeithiau cymdeithasol gohiriedig y dirwasgiad e.e. diweithdra. Mae hefyd yn bosibl y bydd chwyddiant yn cynyddu wrth i'r economi adfer yn y tymor canolig.



## Effaith ar Gymru

2.29 Cyhoeddwyd cyllideb 2010-11 y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Rhagfyr 2009. Roedd cyllideb 2010-11 yn dangos cynnydd o £286 miliwn mewn refeniw DEL o gymharu â 2009-10: sef cynnydd o 2.1%. Mae hyn yn cynrychioli'r cynnydd isaf yng Nghyllideb y Cynulliad Cenedlaethol ers datganoli. Mae'r targedau effeithlonrwydd cynyddol a nodwyd yn y gyllideb ddiwethaf yn debygol o olygu gostyngiadau mewn termau real yn arian Llywodraeth Cynulliad Cymru dros y cyfnod a gwmpaswyd yn yr adroddiad hwn. Mae Cyllideb y DU mis Mawrth hefyd wedi dangos gostyngiad sylweddol mewn adnoddau cyfalaf a fydd yn anochel yn effeithio ar gyllidebau refeniw. Nid yw effaith toriadau cenedlaethol yng ngwariant cyfalaf ar Gymru yn glir eto ond nid oes rheswm i ddisgwyl iddynt fod yn llai difrifol na Lloegr.

# 3. Maintioli'r Bwlch Ariannol yn y Dyfodol


Mae'r dadansoddiad yn dod i'r casgliad bod y bwlch rhwng yr adnoddau refeniw sydd ar gael i lywodraeth leol yng Nghymru a'r gost o gynnal gwasanaethau ar y lefel bresennol yn amrywio o £201 miliwn i £989 miliwn erbyn 2013-14. Mae'r dadansoddiad yn awgrymu y bydd pwysau ar wasanaethau a newidiadau posibl i ddemograffeg yn ychwanegu £70 miliwn arall y flwyddyn i'r bwlch.

Ymhellach, mae cyllideb gwariant cyfalaf DEL o Lywodraeth Cynulliad Cymru yn debygol o leihau'n sylweddol rhwng 2009-10 a 2011-12 yn unol â gostyngiadau a nodir yng nghyllideb y DU.

## Fframwaith dadansoddiad - Cefndir

- 3.0 Mae'r dadansoddiad o'r bwlch ariannol posibl yn y dyfodol o fewn cyllid llywodraeth leol Cymru wedi'i wneud yn dilyn diffiniad a chytundeb fframwaith dadansoddiad manwl gyda Grŵp Llywio Project SOLACE Cymru. Dylid nodi fod y sefyllfaoedd a nodir yn y fframwaith hwn yn seiliedig ar ragdybiaethau y gellir eu gwneud yn rhesymol yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd.
- 3.1 Modelwyd tair sefyllfa, sef achos gorau, achos gwaethaf ac achos cymedrol. Ym mhob sefyllfa gwnaed rhagdybiaethau am:
  - chwyddiant cyflogau athrawon a staff nad ydynt yn athrawon;
  - y gost o dalu am ddiffygion pensiynau;
  - chwyddiant nad yw'n ymwneud â chyflogau;
  - arian sydd ar gael gan Lywodraeth Cynulliad Cymru; a
  - cynnydd yng nghanran y Dreth Gyngor.
- 3.2 Dangosir y rhagdybiaethau manwl yn y Fframwaith Dadansoddiad yn Atodiad A.
- 3.3 Fel enghraifft, yn y sefyllfa achos gorau tybir y bydd rhaid rhewi cyflogau staff nad ydynt yn athrawon ar gyfer 2010-11 a 2011-12. Yn yr achos gwaethaf tybir y bydd cyflogau pobl nad ydynt yn athrawon yn cynyddu 2.30% yn 2010-11 a 2.00% yn 2011-12. Yn y sefyllfa achos gorau modelir y Dreth Gyngor ar gynnydd o 5% y flwyddyn dros gyfnod y dadansoddiad ac yn yr achos gwaethaf fe'i modelir ar 2% y flwyddyn.
- 3.4 Fe dybiwyd y bydd cyfanswm refeniw DEL ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru yn lleihau 2% y flwyddyn ar gyfer 2011-12 i 2013-14. Mae hyn yn seiliedig ar arwyddion yng Nghyllideb y Canghellor ym mis Ebrill 2009 o ran Gwariant a Reolir yn Flynyddol.
- 3.5 Mae'r modelu wedi arwain at y graff canlynol sy'n dangos y bwlch rhwng y gwariant sy'n angenrheidiol i gynnal gwasanaethau ar lefel 2009-10 a'r adnoddau sydd ar gael.

### Ffigur 3a – Y bwlch a ragwelir rhwng Incwm a Gwariant



Ffynhonnell: Deloitte<sup>6</sup>

3.6 Mae Ffigur 3a yn dangos sut mae'r bwlch yn tyfu dros amser.

#### Pwysau costau pensiwn

3.7 Mae'r bwlch ariannu yn Ffigur 3a wedi'i ysgogi'n rhannol gan y pwysau sylweddol a ragwelir o ran cyfraniadau cyflogwyr i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS). Ym mhob un o'r sefyllfaoedd uchod rhagdybir y bydd cyfraniadau cyflogwyr i Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus yn cynyddu. Yn yr achos gwaethaf tybiwyd y bydd cyfraniadau cyflogwyr yn codi 7% yn fwy na'u cyfartaledd presennol o 20% erbyn 2013-14. Tybiwyd y bydd y codiad hwn yn lefelu dros dair blynedd i ganiatáu amser i awdurdodau addasu i gynnydd mor fawr mewn costau. Erbyn 2013-14 mae effaith y cyfraniad ychwanegol yn amrywio o £76 miliwn yn y sefyllfa achos gorau i £176 miliwn yn y sefyllfa achos gwaethaf.

#### Effaith ar Lefel Awdurdod

3.8 Er mwyn dadansoddi effaith ddangosol cyfanswm y bwlch ariannu a amcangyfrifwyd o dan bob sefyllfa ar awdurdodau unigol, mae'r ymchwil wedi dosrannu'r bwlch i awdurdodau ar sail eu setliadau diwethaf. Mae'r bylchau yn trosi i ddiffygion cyllideb blyneddol yn 2013-14 ar sail:

<sup>6</sup> While this report was being finalised there was a change of Government in Westminster which could impact on the timing and scale of cuts to public sector budgets which may in turn impact on the gap identified in this report.

**Ffigur 3b**

Maint yr Awdurdod	Achos Gorau £ miliwn	Achos Cymedrol £ miliwn	Achos Gwaethaf £ miliwn
Bach (Cyllid Allanol Cyfun tua £90m)	4.7	14.3	23.3
Canolig (Cyllid Allanol Cyfun tua £180m)	9.1	27.4	44.9
Mawr (Cyllid Allanol Cyfun tua £330m)	17.1	51.6	84.4

Ffynhonnell: Deloitte

- 3.9 Dylid nodi er mwyn cyflawni'r arfer gorau bydd angen cynnydd blynyddol o 5% mewn Treth Gyngor dros y pedair blynedd nesaf. Felly hyd yn oed yn y sefyllfa achos gorau bydd angen gweithredu mentrau arbed costau yn enwedig wrth ystyried pwysau demograffig a phwysau gwasanaethau eraill.

### Ystyried Demograffeg

- 3.10 Mae ystadegau poblogaeth Cymru yn dynodi mai'r prif newid demograffig dros y cyfnod a gwmpasir gan yr ymchwil hwn (2009 – 2014) fydd twf o 4.0% yng nghanran poblogaeth Cymru o oed ymdddeol a throsodd. Yn benodol disgwylir i'r rhai 65-69 oed gynyddu 21.9%. Yn yr un cyfnod disgwylir i ganran y boblogaeth o dan 16 oed godi dim ond 0.3%.
- 3.11 Felly mae'r prif bwysau costau demograffig yn debygol o fod mewn gofal cymdeithasol i'r henoed. Mae gwaith ymchwil CLILC wedi dangos bod y gost o ddarparu pecynnau gofal cartref yng Nghymru wedi cynyddu £377 miliwn rhwng 2001-02 a 2007-08; mae hyn oherwydd cymhlethdodau cynyddol y pecynnau gofal a ddarperir a disgwyliadau uwch dinasyddion o'r wladwriaeth. Mae strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru "Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol" yn cydnabod pwysau cyllid ym maes gofal cymdeithasol a'r angen i foderneiddio gwasanaethau cymdeithasol personol ond mae'r sefyllfa oedd ariannu a ddangosir yn yr adroddiad hwn yn nodi bod cyllid yn annhebygol o gynyddu yn y maes hwn.
- 3.12 Disgwylir i Awdurdodau Lleol Cymru wario £499 miliwn ar wasanaethau cymdeithasol i'r rheiny sy'n hyn na 65 oed yn 2009-10. Gallai cynnydd o 4% yng nghost gofal cymdeithasol oedolion fod cymaint â £20 miliwn y flwyddyn.
- 3.13 Dros y degawd diwethaf mae'r rhan fwyaf o ddarpariaeth gwasanaeth uniongyrchol y mae pobl yn ei chael naill ai yn eu cartrefi eu hunain neu mewn lleoliadau eraill wedi cael eu trosglwyddo i'r sector annibynnol. Mae dros 85% o ofal preswyl i oedolion a 75% i blant bellach yn cael eu cwrrdd gan dros 3,000 o gartrefi gofal yng Nghymru. Ceir rhai pryderon y gallai diffyg benthyca sydd ar gael i gefnogi llif arian parod mewn rhai o'r cartrefi hyn arwain atyn nhw'n mynd allan o fusnes.
- 3.14 Mae'r amcangyfrifon diweddaraf a ddarparwyd gan awdurdodau yn awgrymu y gallai chwyddiant ffioedd cartref gofal fod mor uchel â 5% dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.
- 3.15 Mae CLILC yn amcangyfrif i hyn fod tua £15 miliwn y flwyddyn.

### Ystyriaeth o Bwysau Costau Eraill

#### Cytundebau Statws Unigol

- 3.16 Mae Cynghorau ledled Cymru yn parhau i wneud cynnydd gyda thrafodaethau ar weithredu strwythurau cyflog a graddio newydd, ac iawndal cyflog cyfartal. Mae naw awdurdod wedi cwblhau proses gwerthuso swyddi ac mae naw awdurdod arall tua 70% o'r ffordd drwy'r broses. Disgwylir i weddill yr awdurdodau gwblhau'r broses erbyn diwedd 2010-11, sy'n golygu

bod hwn yn parhau i fod yn bwysau penodol y bydd angen i'r awdurdodau eu hwynebu o fewn eu cyllidebau ar gyfer y flwyddyn honno.

- 3.17 Cyfanswm yr iawndal cyflog cyfartal hyd yn hyn yw £56 miliwn a sicrhawyd bod cyllid ychwanegol ar gael i lywodraeth leol rhwng 2005-06 a 2007-08 i helpu i dalu rhywfaint o'r costau hyn. Un effaith o'r strwythurau cyflog newydd a nodwyd gan awdurdodau lleol yw bod y mwyafrif o weithwyr sy'n symud i gyfraddau cyflog newydd yn gwneud hynny ar waelod y raddfa. O ganlyniad rhagwelir y bydd nifer o staff sy'n derbyn cynnydd cyflog cynyddol yn llawer uwch nac y bu'n hanesyddol a bydd hyn yn berthnasol i'r cyfnod llawn a gwmpesir gan yr adroddiad hwn.
- 3.18 Mae awdurdodau wedi hysbysu CLILC y gallai hyn gostio cymaint â £30 miliwn y flwyddyn.

## Trefniadaeth Ysgolion

- 3.19 Mae ffigurau diweddar yn dangos bod 76,000 o leoedd gwag yn y system addysg yng Nghymru ar hyn o bryd ac mae'r ffigur hwn yn codi bob blwyddyn a gallai fod yn fwy na 100,000 erbyn 2014<sup>7</sup>. Yn ogystal mae angen buddsoddiad sylweddol ar yr ystâd ysgolion. Mae cynnal a chadw adeiladau ysgol anaddas sy'n heneiddio hefyd yn golygu cyfeirio'r arian tuag at gynnal adeiladau yn hytrach nag addysg plant a phobl ifanc. Ystyrir ad-drefnu lleoedd ysgolion fel ffordd fwy effeithiol o ddarparu gwasanaethau addysg ac yn gyfraniad mawr tuag at wella ysgolion a chodi safonau. Bydd yn rhaid i awdurdodau fod yn gymharol hyblyg o fewn eu hystâd fodd bynnag gan fod tystiolaeth o ragolygon poblogaeth yn dangos cyfraddau geni cynyddol mewn rhai ardaloedd. Mae lleoliad a safon yr ystadau yn flaenoriaethau allweddol i awdurdodau fynd i'r afael â nhw.
- 3.20 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cymryd camau i fynd i'r afael â'r mater hwn drwy Grant Gwella Adeiladau Ysgolion (SBIG). Fodd bynnag, dywedodd y Gweinidog dros Blant, Dysgu Gydol Oes ac Addysg i Bwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Chwefror 2008 bod angen £818 miliwn i gynnal a chadw a diweddarau ysgolion presennol. Gan ystyried y gyllideb gyfalaf ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru y cyfeiriwyd ati yn Adran 2 o'r adroddiad ymchwil hwn, byddai angen dyraniad cyfalaf dwy flynedd lawn o'r gyllideb honno i fynd i'r afael â materion cynnal a chadw a diweddarau wedi'u cronni. Ni fyddai hyn yn mynd i'r afael â'r gost o adeiladu ysgolion newydd pan nodir angen o'r fath nag unrhyw anghenion cyfalaf eraill.
- 3.21 Ymhellach mae llwyddiant yng Nghymru ar lefel TGAU (a fesurir gan y rheiny sy'n ennill 5 TGAU neu fwy ar lefel A\*-C) wedi gwella'n gyson dros y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag mae'r bwlch mewn cyflawniad rhwng Lloegr a Chymru wedi tyfu o 0.8% ym 1999 i 8% yn 2008<sup>8</sup>. Ar yr un pryd er bod cyllid fesul disgybl yng Nghymru wedi cynyddu dros yr un cyfnod, mae'r bwlch mewn cyllid disgyblion rhwng Cymru a Lloegr hefyd wedi cynyddu: y bwlch ar hyn o bryd yw £495 fesul disgybl<sup>9</sup>. Mae'r ffigur hwn yn deillio o gyfanswm gwariant addysg gan awdurdodau, gan gynnwys cyllid ysgolion dirprwyedig ac annirprwyedig.
- 3.22 Felly nid oes ystod i ailgyfeirio cronfeydd refeniw i waith cyfalaf fel ateb i'r problemau adeiladau. Ymhellach, mae'r ystadegau yn awgrymu bod angen cyllid refeniw ychwanegol o £200 miliwn o leiaf er mwyn mynd i'r afael â'r bwlch rhwng cyllid fesul disgybl yn Lloegr a Chymru.
- 3.23 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gwneud buddsoddiad sylweddol yn Addysg y Cyfnod Sylfaen a disgwylir iddo helpu i wella lefelau cyflawniad yn yr hirdymor.
- 3.24 Mae'r gofynion cyfalaf a refeniw yn faterion hanfodol ar gyfer parhad gwasanaethau addysg yn eu ffurf bresennol a dim ond adolygiad radical o'r ffordd y darperir addysg fydd yn mynd i'r afael â diffygion o'r fath mewn adnoddau.

<sup>7</sup> Figures provided by DCELLS, Welsh Assembly Government

<sup>8</sup> Statistical bulletins SDR 195/2008 (published by Welsh Assembly Government:

<http://wales.gov.uk/docs/statistics/2008/081126sdr1952008en.pdf?lang=en>) and SFR 34/2007 (published by Department for Children, Schools and Families: [http://www.dcsf.gov.uk/rsgateway/DB/SFR/s000754/SFR34-2007\\_v2.pdf](http://www.dcsf.gov.uk/rsgateway/DB/SFR/s000754/SFR34-2007_v2.pdf))

<sup>9</sup> StatsWales Bulletin SB 4/2009, 28<sup>th</sup> January 2009: <http://wales.gov.uk/docs/statistics/2009/090128sb42009en.pdf?lang=en>

## Pwysau Annemograffig Gofal Cymdeithasol

- 3.25 Mae Gwasanaethau Plant yng Nghymru yn wynebu pwysau sylweddol. Mae gan Gymru'r bedwaredd gyfradd uchaf o Blant sy'n Derbyn Gofal lleol yn Ewrop ac mae awdurdodau yn rhagweld cynnydd yn nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal yn y tymor canolog. Yng Nghymru, mae awdurdodau hefyd yn gweld cynnydd mewn gwaith statudol a chostau ychwanegol o ganlyniad i Amlinelliad Cyfraith Cyhoeddus, gyda rhai awdurdodau yn nodi treblu mewn achosion gofal yn 2008-09 o gymharu â 2005-06. Bu cynnydd sylweddol yn nifer yr achosion gofal yn dilyn achos Baby P. Fodd bynnag, dros y pedair blynedd diwethaf mae niferoedd wedi anwladu ac mae'n rhy gynnar ar hyn o bryd i weld unrhyw dueddiad. Mae nifer o awdurdodau lleol unigol yn adrodd twf yn y nifer a chymhlethdod achosion gofal gyda chostau ychwanegol dilynol.
- 3.26 Gwasanaethau y tu allan i'r sir yw'r ardal fwyaf cyfnewidiol o gyllidebu gwasanaethau plant gydag un lleoliad yn gallu costio hyd at £200,000 y flwyddyn. Yn 2008-09 arweiniodd hyn at orwario gan nifer o awdurdodau.


## Gwasanaethau Amgylcheddol

- 3.27 Mae'r gwasanaethau cynllunio wedi gweld gostyngiad mawr mewn ceisiadau yn y dirwasgiad ac mae hyn wedi effeithio ar incwm o ffioedd i'r adrannau hynny. Mae llawer o awdurdodau yn wynebu penderfyniadau anodd ynghylch lefel staffio yn yr adrannau hyn ond rydym yn ofalus ynghylch gwneud penderfyniadau byrdymor a fydd yn gadael bwllch capasiti ar ôl i'r economi adfer.
- 3.28 Tybiwyd y bydd costau sy'n ymwneud â rheoli gwastraff yn parhau i gael eu hariannu'n llawn drwy grantiau ac felly, er bod hwn yn bwysau o ran cost ar y sector cyhoeddus cyfan, nid yw'n cael ei ystyried fel pwysau ychwanegol ar gyfer y dadansoddiad hwn.

## Cyfalaf

- 3.29 Mae'r bennod hon hyd yn hyn wedi bod yn canolbwyntio ar ragamcanion referiw'r dyfodol. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa o ran ariannu projectau cyfalaf yn sylweddol gwaeth. Gwnaeth cyllideb y Canghellor nodi y bydd buddsoddiad net y sector cyhoeddus yn lleihau i 1.25% o GDP yn 2013-14. Yn ôl y Sefydliad Astudiaethau Cyllidol mae hyn yn awgrymu gostyngiad mewn termau real o dros 50% erbyn 2013-14.
- 3.30 Mae'n anodd bod yn union gywir ar y cam hwn o ran sut y bydd hyn yn effeithio ar wariant cyfalaf llywodraeth leol. Fodd bynnag, bydd gostyngiad mor fawr yn y Deyrnas Unedig yn sicr o effeithio ar Gymru. Dylid nodi y bydd awdurdodau lleol yng Nghymru yn dibynnu ar lywodraeth ganolog am 70% o gyllid eu gwariant cyfalaf. Mae CLILC wedi rhagamcan y gallai'r setliad cyfalaf i Gymru ostwng fel y dangosir yn y siart canlynol:

**Ffigur 3c – Acmanestyniadadau o gyfanswm setliad cyfalaf**



- 3.31 Bydd gostyngiadau yn yr adnoddau cyfalaf sydd ar gael yn cael effaith glir ar y gallu i ddechrau cynlluniau cyfalaf mawr i fynd i'r afael â'r materion arwyddocaol o gynnal a chadw ac adnewyddu asedau a reolir gan awdurdodau lleol. Gellir mynd i'r afael â rhywfaint o effaith negyddol y gostyngiad a ddisgwylir mewn adnoddau cyfalaf drwy reoli a chynllunio asedau yn well. Fodd bynnag, mae maint y broblem sydd dros ben yn debygol o olygu gohirio cynnal a chadw cyfalaf a, thrwy wneud hynny, creu atebolrwydd i'w hwynebu yn y dyfodol neu waethygu'r sefyllfa refeniw drwy glustnodi rhagor o adnoddau refeniw i helpu buddsoddiad cyfalaf.
- 3.32 Gallai lai o fynediad i adnoddau cyfalaf hefyd olygu rhwystr i'r newid trawsffurfiol sydd ei angen i fynd i'r afael â'r wasgfa ariannol e.e. gofynion buddsoddi ar gyfer modelau darparu gwasanaeth newydd a defnydd cynyddol o dechnoleg i wella effeithlonrwydd gweithredol.
- 3.33 Dylid hefyd nodi bod y sefyllfa economaidd bresennol wedi golygu bod Cynghorau yn ei chael hi'n anoddach i werthu asedau dros ben i greu arian cyfalaf i'w defnyddio ar brojectau eraill.

### Pa mor arwyddocaol yw graddfa'r bwloch a nodwyd yn y dadansoddiad hwn?

- 3.34 Mae'r adran hon yn nodi nifer o sefyllfaoedd gwahanol ar gyfer effaith y bwloch ariannu a ragwelir yn y dyfodol sy'n effeithio ar lywodraeth leol yng Nghymru. Mae'r sefyllfaoedd yn cynnwys asesu bwloch ariannu yn y dyfodol rhwng £201 miliwn a £989 miliwn ac eithrio pwysau gwasanaeth a phwysau costau eraill.
- 3.35 Ni ellir ymdrin â bwloch achos cymedrol o £605 miliwn drwy wneud toriadau canran bach o gyllidebau gwasanaeth. Bydd angen ail-ffurfweddau gwasanaethau ar raddfa gyfan. Mae hyn yn cynrychioli bron i 11% o wariant cyfredol ar yr holl wasanaethau llywodraeth leol.
- 3.36 I ystyried graddfa'r mater, isod ceir enghreifftiau eithafol:
- diffodd holl oleuadau'r stryd, torri'r holl wariant ar drafndiaeth gyhoeddus, rhoi'r gorau i gynnal a chadw ffyrdd yn y gaeaf: byddai arbedion o £300 miliwn yn cael eu gwneud; hefyd
  - cau llyfrgelloedd, canolfannau hamdden a theatrau a rhoi'r gorau i gynnal a chadw parciau: byddai arbedion pellach o £300 miliwn yn cael eu gwneud.
- 3.37 Mae'r enghreifftiau uchod wedi'u dewis i ddangos graddfa a chyd-destun maint y bwloch ac amlygu'r her sy'n wynebu llywodraeth leol yng Nghymru wrth gynnal gwasanaethau cyhoeddus craidd. Ni fyddai cyfanred yr enghreifftiau uchod yn ddigonol i gyfartalu â'r bwloch a nodir yn y senario gymedrol, ond byddai'n cwrdd â dim ond hanner yr arbedion sydd eu hangen yn y senario achos gwaethaf.
- 3.38 I ymdrin â'r bwloch yn yr achos cymedrol trwy godi'r Dreth Gyngor yn unig byddai angen cynnydd o ychydig dros 15% y flwyddyn bob blwyddyn o 2010-11 i 2013-14.
- 3.39 Mae hyd at 80% o wariant awdurdod lleol yng Nghymru yn ymwneud ag addysg, gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau amgylcheddol ac, yn ddealladwy, mae Cynghorau yn ceisio cyfyngu ar effeithiau'r wasgfa ariannol ar y gwasanaethau hyn. Fodd bynnag, os oes rhaid i Gynghorau er enghraifft arbed cyfartaledd o 2% y flwyddyn dros saith neu wyth mlynedd (sefyllfa realistig iawn) a cheisio cyflawni hyn drwy ddiogelu gwasanaethau mwy yn llawn, byddai'n cyfateb i doriadau o 10% y flwyddyn ar gyfer gwasanaethau llai. Byddai effaith gronns toriadau o'r fath dros saith neu wyth mlynedd yn anghynladwy ar gyfer gwasanaethau yr effeithir arnynt. Am y rheswm hwn, ni fydd Cynghorau yn methu â pheidio wynebu rhai penderfyniadau anodd iawn yn y tri phrif wasanaeth sef addysg, gofal cymdeithasol a'r amgylchedd.
- 3.40 Dylid nodi bod costau gweinyddu Canolog ond yn cyfrif am £2 filiwn ac felly er y gallai mentrau fel gwasanaethau a rennir ar gyfer swyddogaethau cefn swyddfa gyflwyno arbedion ni fyddant yn cael effaith fawr ar lefel yr arbedion sydd eu hangen gan lywodraeth leol.

## Ar ôl 2013-14

- 3.41 Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r Trysorlys yn disgwyl y bydd tynhau cyllidol a gynllunnir yn dod â benthyca net blynyddol lawr i 5.5% o GDP erbyn 2013-14. Mae'r Trysorlys yn disgwyl yr ymdrinnir â hyn drwy gryfhau cyllidau cyhoeddus wrth i'r economi adfer ynghyd â thynhau cyllidol pellach sy'n cyfateb i 3.2% o'r incwm cenedlaethol dros 2014-15 i 2017-18.
- 3.42 Yn ôl y Sefydliad Astudiaeth Cyllidol, byddai ariannu hyn o wariant cyhoeddus yn llwyr yn awgrymu twf blynyddol cyfartalog o 0.4% y flwyddyn dros y cyfnod pedair blynedd. Unwaith eto, mae'n debygol y byddai hynny sydd ar ôl ar gyfer terfynau gwariant ariannol yn llawer llai ar ôl ystyried nawdd cymdeithasol a thaliadau llog dyledion. Sefyllfa arall yw bod tynhau cyllidol yn dod o gynnydd mewn treth, ond mae 3.2% o refeniw GDP yn cyfateb i gynnydd yn y gyfradd sylfaenol o dreth o dros 10 ceiniog yn y bunt.
- 3.43 Mae trethiant cynyddol o'r maint hwn yn annhebygol iawn a hyd yn oed os yw peth o'r tynhau cyllidol yn dod o drethiant cynyddol, gall awdurdodau lleol barhau i ddisgwyl setliadau llym iawn ar gyfer cyfnod 2014-15 i 2017-18. Gan ddod i gasgliad, dylai Cyngorau yng Nghymru gynllunio ar gyfer cyfnod parhaus o saith neu wyth mlynedd o gyfyngiadau ariannol.




# 4. Cau'r Bwlch

**Yn y sefyllfa hon dim ond newid trawsffurfiol mawr fydd yn darparu gwasanaethau sy'n cwrdd â disgwyliadau dinasyddion o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Bydd rhaid i'r Sector Cyhoeddus Cymreig feddwl mewn ffordd go wahanol a dechrau gweithredu ar unwaith.**

## Cefndir

- 4.0 Ni all yr adroddiad ragweld yn gywir yr union ddiffyg ariannol, ar sail flynyddol, a fydd yn wynebu awdurdodau lleol unigol a theulu llywodraeth leol Cymru gyfan. Mae, fodd bynnag, yn cyfleu darlun o faint digynsail yr her sy'n wynebu awdurdodau lleol yng Nghymru.
- 4.1 Mae hefyd yn amlwg y bydd y broblem hon yn herio llywodraeth leol am beth amser - mae'r amcangyfrifon diweddaraf o'r Sefydliad Astudiaethau Cyllidol yn rhagweld y bydd cyfyngiadau gwariant adrannol yn y DU yn lleihau gan 11.9% mewn termau real dros y pedair blynedd nesaf o 2011-12 i 2014-15.
- 4.2 Caiff y broblem ei gwaethygu drwy gynydd sylweddol yn y galw am wasanaethau cyhoeddus oherwydd pwysau demograffig a fyddai'n cynyddu'n sylweddol o 2015 ymlaen ac o ran disgwyliadau dinasyddion yn nhermau lefelau ac ansawdd gwasanaethau.
- 4.3 Felly, mae awdurdodau lleol, a gweddill y sector cyhoeddus yng Nghymru, yn wynebu her enfawr os yw am ymdrin â chyfyngiadau gwariant cyhoeddus yn y dyfodol yn y tymor byr, canol a hir. Sut fydd y niwed yn cael ei leihau a'r cyfleoedd yn cael eu defnyddio o'r dirwedd ariannol sy'n dod i'r amlwg?
- 4.4 Ymddengys bod arweinyddiaeth awdurdod lleol, yn unigol ac fel teulu ac o fewn cyd-destun arweinyddiaeth sector cyhoeddus, â dau ddewis. Y cyntaf yw cynyddu maint a chyflymdra mentrau effeithlonrwydd o fewn y cyd-destun hanesyddol lleol a chenedlaethol. Fodd bynnag, mae anfanteision gyda hyn:
  - nid yw'r fframwaith cenedlaethol wedi bod yn ddigon atyniadol, strategol ac uchelgeisiol i wneud yn fawr o'r effeithlonrwydd sydd ei angen ar gyfer graddfa'r her sy'n dod i'r amlwg;
  - nid yw ymrwymiad lleol mewn mentrau effeithlonrwydd cydweithredol wedi bod yn ddigon cyson ar draws meysydd gwasanaeth a daearyddol i fynd i'r afael â graddfa'r broblem; ac
  - nid oes gan awdurdodau unigol yn gyffredinol y capasiti, neu'r holl fedrusrwydd, i ddatblygu a chyflawni'r lefel disgwylidig o arbedion effeithlonrwydd eu hunain.
- 4.5 Mae'r dewis yn annhebygol o gynhyrchu datrysiad optimwm. Er bod llywodraeth leol Cymru wedi gwneud arbedion effeithlonrwydd rheolaidd o £186 ers 2005-06 a bod hynny'n beth da mewn termau hanesyddol, byddai hyd yn oed perfformiad cyflymedig o'r sail hwn yn dal i adael bwlch arbedion gweddilliol sylweddol y byddai rhaid eu bodloni gan doriadau mewn gwasanaethau.
- 4.6 Dull arall yw bod yn llawer mwy radical a chyflwyno dull cydlynol, strategol, systematig a strwythuredig i effeithlonrwydd yn Sector Cyhoeddus Cymru. Fel y byddai rhai o'r datrysiadau posibl yn lleol yn cynnwys dull mwy integredig a systematig rhwng cyrff cyhoeddus (e.e. Total Place) mae angen yr un ffordd o feddwl yn genedlaethol.
- 4.7 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf (Ffigur 4a) mae awdurdodau lleol wedi bod yn sefydlu cysylltiadau llorweddol ar lefel lleol a rhanbarthol gyda chyrff cyhoeddus eraill, ond mae'r dull yn tueddu i fod o'r gwaelod i fyny gan mwyaf. Byddai dull systemau cyfan nid yn unig yn hwyluso rhagor o gysylltiadau a chyfleoedd i awdurdodau unigol ond hefyd yn darparu darlun gwell o'r posibiliadau ar gyfer effeithlonrwydd o fewn y cyfan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

## Ffigur 4a – Dull presennol y cydweithredu



4.8 Gallai dull strategol cenedlaethol fwy cadarn ac uchelgeisiol hefyd arwain at:

- ffordd systematig o nodi a blaenoriaethu mentrau effeithlonrwydd a fyddai'n cynhyrchu'r arbedion mwyaf;
- datblygu mentrau effeithlonrwydd sydd wedi'u teilwra i gwrdd â gofynion Sector Cyhoeddus Cymru;
- hwyluso'r gwaith o drefnu'r mentrau effeithlonrwydd yma ar y lefel daearyddol mwyaf priodol p'un ai yn lleol, isranbarthol, rhanbarthol neu genedlaethol;
- rheoli a datblygu bwydlen o ymyraethau effeithlonrwydd o fewn trosolwg o'r proffil disgwylidiedig o'r anghenion arbedion effeithlonrwydd dros amser; wrth wneud hynny, sbarduno enillion cyflym ond hefyd cychwyn heddiw'r mesurau hynny sydd ag amseroedd arwain maith o ddatblygu'r syniad gwreiddiol i'r gwaith trefnu hyd at gyflawniad; a
- sbarduno ymdrechion cyrff cyhoeddus yng Nghymru o amgylch gweledigaeth uchelgeisiol ar gyfer effeithlonrwydd sector cyhoeddus yng Nghymru gyda thargedau cenedlaethol cyraeddadwy ond ymestynnol ar gyfer y 3, 5 a 7 mlynedd nesaf.

## Newid Amserol

4.9 Oherwydd nifer o ffactorau, ar hyn o bryd mae cyfle wedi codi i wneud defnydd o ddull newydd o weithio y gall arweinyddiaeth gydweithredol Sector Cyhoeddus Cymru elwa ohono.

- Mae yna werthfawrogiad eang o fewn cynghorau a sefydliadau sector cyhoeddus eraill ynghylch difrifoldeb digyffelyb yr heriau ariannol sy'n dod i'r amlwg. Mae arweinwyr yn dechrau gwerthfawrogi effaith gynyddol blynyddoedd o doriadau o dan y trefniadau presennol ar gyfer cyflawni effeithlonrwydd yn lleol ac yn genedlaethol. O ganlyniad, mae angen am newid radical yn dod yn fwyfwy amlwg ond mae'n rhaid ffrwyno hyn er mwyn sicrhau newid go iawn.
- Yn ddiweddar gwelwyd arwyddion calonogol o ran y newid yn nulliau Llywodraeth Cynulliad Cymru fel y dangosir gan:
  - ddealltwriaeth newydd rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a llywodraeth leol yng Nghymru;

- hybu holl fentrau'r sector cyhoeddus gan Lywodraeth Cynulliad Cymru e.e. Grŵp Arweinyddiaeth Gweithredol, Rheoli yng Ngwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Gwerth Cymru ac ati; ac
  - yn ddiweddar, cafodd Bwrdd Effeithlonrwydd ac Arloesi ar gyfer y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ei sefydlu. Mae'r syniadau y tu ôl i'r dull hwn o weithio yn gyson â rhai o'r argymhellion a ddaeth i'r amlwg yn ystod y gwaith o ddrafftio'r adroddiad hwn ac fe allai ddarparu'r sail ar gyfer dull trawsffurfiol o wella effeithlonrwydd a gwasanaethau.
- 4.10 Mae cyfle'n bod felly i gymryd mantais o'r hinsawdd sy'n dod i'r amlwg i drawsffurfio'r dull o ddelio ag effeithlonrwydd sector cyhoeddus yng Nghymru mewn ffordd sy'n gyson â chyfreithlonrwydd ddemocrataidd a rôl pob haen o lywodraeth yng Nghymru.

## Ble Ydym Ni Nawr?

- 4.11 Mae awdurdodau lleol yn defnyddio cymysgedd o ddulliau i ddelio gyda bylchau cyllid yn y tymor byr. Gellir eu categorio'n fras yn dri math.
- (i) **Arbedion Tactegol** – mae'r rhain yn amrywio o fesurau dros dro fel rhewi projectau, i fesurau mwy parhaol fel optimeiddio incwm. Mae'r mathau hyn o arbedion yn anghynladwy. Gallant lenwi'r blwch yn y tymor byr neu eu hychwanegu fel eitem falansio i becyn mwy cynladwy o fesurau effeithlonrwydd ond nid ydynt ar eu pen eu hunain yn ddatrysiad cynladwy yn y tymor canolig i hirdymor. Maent yn cynnwys:
- rheoli swyddi gwag;
  - telerau ac amodau cyflogaeth;
  - toriadau neilltuol (toriadau tameidiog);
  - cynyddu cynhyrchiad incwm;
  - medi tanwariant; a
  - gohirio projectau.
- (ii) **Effeithlonrwydd Gweithredol** – Mae'r mentrau hyn gallu arbed arian heb effeithio ar ganlyniadau ac maent hefyd yn cael yr effaith o wella perfformiad ar yr un pryd. Maent yn cynnwys :
- dadhaenu rheolaethol;
  - meddwl yn ddiwastraff - ar raddfa fawr;
  - gweithio hyblyg – desk boeth/gweithio o gartref;
  - cynhyrchiant, e.e. rheoli absenoldeb oherwydd salwch;
  - technoleg:-
    - technoleg gynorthwyol, e.e. Teleofal
    - Cleient Main
    - Ffynhonnell Agored
    - Cyfrifiadura Cwmwl
    - Protocol Llais dros y Rhyngrwyd
    - technoleg symudol

- rheoli dogfennau'n electroneg mewn cysylltiad â llif gwaith;
- ad-drefnu swyddfeydd; a
- gwell caffael.

Mae'r rhain yn darparu arbedion sylweddol ac mae'r methodolegau wedi hen ennill eu plwyf yn y sector preifat, neu rannau o'r sector cyhoeddus. Bydd y rhan fwyaf o'r awdurdodau yng Nghymru yn defnyddio rhai o'r mentrau hyn i ryw raddau. Fodd bynnag, o ran eu potensial cyffredinol ar draws llywodraeth leol gyfan ac, yn wir, y sector cyhoeddus cyfan yng Nghymru, maent ymhell o fod yn cael eu defnyddio'n llawn.

(iii) **Effeithlonrwydd strategol** – Mae'r mesurau hyn, ar y cyfan, yn llai datblygedig ond mae'r ganddynt botensial aruthrol ar gyfer arbed arian yn y dyfodol. Maent yn cynnwys :

- comisiynu strategol - ar sail canlyniadau;
- partneriaeth strategol;
- cydweithredu;
- Total Place;
- gwasanaethau unigol cost uchel;
- atal;
- gwasanaethau personoledig;
- rheoli galw, e.e. marchnata cymdeithasol, ymyraethau ymddygiadol;
- perthynas â dinasyddion:-
  - gwasanaethau cyffredinol v gwasanaethau arbenigol
  - cyd-gynhyrchu
  - segmentu cwsmeriaid
  - hunangymorth
- cyfuno gofal iechyd/cymdeithasol.


Mae'r mesuriadau effeithlonrwydd hyn yn gynaliadwy ond hefyd yn drawsffurfiol eu natur un ai o ran y ffordd y mae awdurdodau lleol yn ymgysylltu â dinasyddion neu'r ffordd y maent yn ymgysylltu â phartneriaid eraill boed yn y sector cyhoeddus, preifat neu drydydd sector.

## Gwneud I Hyn Ddigwydd

- 4.12 Dylai uchelgais yr arweinyddiaeth gyfunol yng Nghymru fod cymaint fel bod cyfrannau sylweddol o'r gofyniad i arbed arian yn y dyfodol yn cael ei gyflawni drwy fwy o effeithlonrwydd. Mae ffigur 4b isod yn dangos yr her bosibl ond y neges bwysicaf yw os ydy mesurau gweithrediadol a strategol yn mynd i gyfrannu yn nhermau'r raddfa a'r amseru sy'n angenrheidiol i'r sialen hon yna mae'n rhaid i rai pethau ddigwydd:-


Ffigur 4b – y gallu i wneud arbedion dros amser

### Making it happen



- (i) dull mwy strategol o weithio gan yr arweinyddiaeth gyfunol sy'n canolbwyntio'r ffocws a'r adnoddau ar y mentrau hynny sydd â'r potensial i wneud y cyfraniad mwyaf at effeithlonrwydd a rhai y gellir eu cymhwysu'n eang ar draws y sector cyhoeddus.
- (ii) mecanwaith ar gyfer datblygu, comisiynu, caffael (lle bo angen) a defnyddio'r mentrau hyn ar draws y teulu llywodraeth leol gyfan mewn ffordd systematig.
- (iii) **Cyflymdra** – Mae dwy agwedd i'r gofyniad hwn. Un yw bod gan rhai o'r mentrau hyn amseroedd arwain hir o ddatblygu'r syniad gwreiddiol hyd at wireddu'r buddion ac mae angen plannu hadau llwyddiant heddiw. Yr ail yw unwaith y bydd menter wedi cael ei hasesu, ei blaenoriaethu a'i datblygu mae angen i gyflymder y newid helaeth ar bob agwedd ar deulu llywodraeth leol gyfan (neu'r sector cyhoeddus cyfan) gynyddu'n sylweddol. (Gweler y ffigur isod)

**Ffigur 4c – y gallu i wneud arbedion dros amser**



- (iv) Integreiddio - ni ellir cyflawni'r amcanion uchod heb ymdrech fwy integredig rhwng y gwahanol bartïon, e.e. awdurdod lleol, Llywodraeth Cynulliad Cymru a Rheoleiddwyr.

## Llywodraeth Cynlluniad Cymru, Cyrff Cyhoeddus Eraill

### Sut y Gallai Weithio

- 4.13 Mae'r gofynion a restrir uchod yn gofyn am ddull newydd o weithio i fynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau i lwyddiant pellach o fewn y system bresennol. Un o'r problemau mwyaf gyda'r system bresennol yw bod llawer gormod o'r partïon allweddol (gan gynnwys arweinwyr gwleidyddol, Prif Weithredwyr, gweision sifil blaenllaw a CLILC) yn ceisio jyglo'r flaenoriaeth hon yn erbyn nifer o flaenoriaethau strategaethol eraill ac yn ymwneud â mentrau tameidiog, nad ydynt, yng nghyd-destun y broblem genedlaethol, yn ddigon uchelgeisiol. Mae gofyn am fframwaith strategol mwy cydlynol. Bydd angen i hwn fyddino cefnogaeth drwy ennyn diddordeb ceffylau blaen, ar y lefel priodol, yn y rhaglen newid a hwyluso'r gwaith o gyflenwi'r newid hwnnw drwy fod yn feiddgar wrth gydnabod yr adnoddau sy'n ofynnol i achosi'r newid.
- 4.14 Dull arall yw datblygu gweledigaeth a strategaeth gymhellol ac uchelgeisiol i wella effeithlonrwydd o fewn llywodraeth leol mewn partneriaeth â llywodraeth genedlaethol. Byddai hyn yn darparu sail ar gyfer Comisiynu'n Strategol ganlyniadau effeithlonrwydd ar draws llywodraeth leol Cymru.
- felly, er enghraifft, gallai cynrychiolwyr o'r rhanddeiliaid allweddol – LLC, CLILC, SOLACE – ffurfio bwrdd comisiynu a fyddai'n comisiynu canlyniadau effeithlonrwydd ar y lefel uchaf, e.e. hwyluso targedau arbedion effeithlonrwydd awdurdod lleol cyfan dros gyfnodau amser gwahanol. (e.e. 3, 5 a 7 blwyddyn). Mae'r newid hwn eisoes wedi cael ei gydnabod drwy sefydlu Bwrdd Effeithlonrwydd ac Arloesi gwasanaethau cyhoeddus yn ddiweddar sy'n cael ei gadeirio gan y Swyddog dros Fusnes a'r

Gyllideb. Mae hwn yn ddatblygiad calonogol a fydd, os caiff ei weithredu'n effeithiol, yn rhan o'r platform ar gyfer llwyddiant yn y dyfodol.

- Er hynny, nid yw comisiynu'n effeithiol strategaeth genedlaethol uchelgeisiol, er yn angenrheidiol, yn ddigon i wireddu'r arbedion gofynnol. Mae angen mynd i'r afael ac agweddau eraill ar newid trawsffurfiol:-
  - Byddino cefnogaeth - ennyn diddordeb ac ysbrydoli'r bobl briodol
  - Galluogi - Sicrhau'r adnoddau digonol a'r galluoedd priodol ar gyfer cyflenwi'r canlyniadau a gomisiynwyd.
  - Llywio – Rhagweld a rhyddhau'r rhwystrau i gynydd. Creu'r hinsawdd ar gyfer llwyddiant.
- Dylai'r Bwrdd Effeithlonrwydd ac Arloesi newydd ddatblygu'r weledigaeth, byddino'r gefnogaeth ar y lefel uchaf (gan gynnwys gwneud defnydd effeithiol o'r Uwchgynhadledd Gwasanaethau Cyhoeddus) llywio llwybr o amgylch meysydd sy'n peri problem. Fodd bynnag, mae angen i'r Bwrdd gael cefnogaeth gan lefel o gapasiti cyflenwi a gallu sy'n cyd-fynd â'i uchelgais o ran comisiynu. Mae'r dull cyflenwi presennol a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Effeithlonrwydd ac Arloesi yn defnyddio'r fframwaith presennol o adnoddau cyflenwi cenedlaethol (e.e. Cyllidebau Creu'r Cysylltiadau, PSMW, Gwerth Cymru ayyb). Mae hefyd yn dibynnu ar swyddogion gweithredol yr awdurdodau sector cyhoeddus, drwy raglenni a phrojectau ffrwd gwaith, i gyflenwi datrysiadau effeithlonrwydd o'r cyrion i brif ffrwd llywodraeth leol.
- Mae'r dull presennol o ddefnyddio'r fframwaith cefnogi sy'n bod eisoes yn creu'r risgiau canlynol:
  - (i) y mae'n ei gwneud yn fwy anodd i sicrhau dull cydlynol cyffredinol o arwain y gwaith cyflenwi, yn hytrach na chomisiynu, mentrau effeithlonrwydd.
  - (ii) ceir dyblygu o ran adnoddau os ydynt yn parhau'n dameidiog;
  - (iii) nid yw'n cydnabod y bydd angen rhyw gymaint o gapasiti newydd ar gyfer trawsffurfiad ar y raddfa hon; a
  - (iv) tra bod angen i randdeiliaid o asiantaethau sector cyhoeddus ymrwymo i'r gwaith o ddatblygu datrysiadau effeithlonrwydd, gall gorddibyniaeth ar bobl sydd â swyddi eraill ystod y dydd arafu cyflymder y newid.

4.15 Yn y pend draw mae'n rhaid i'r uchelgais newydd o ran comisiynu o arbedion effeithlonrwydd ar y cyd gael eu paru gyda dull canolbwyntiedig ac uchelgeisiol i gyflenwi gwasanaethau. Mae'n rhaid i hwn gydnabod y canlynol:

- Bod rhaid i arbedion y gall fod angen eu mesur mewn biliynau ar draws Sector Cyhoeddus Cymru fynd law yn llaw â chynnydd sylweddol mewn adnoddau i wireddu'r arbedion hyn. (Mae llawer o awdurdodau wrthi'n barod yn adeiladu cronfeydd arian trawsffurfio ar gyfer y diben hwn ac mae angen ailadrodd hyn yn genedlaethol).
- Mae'n annhebyg y bydd gan y sector cyhoeddus yr holl gapasiti sydd ei angen i gyflenwi'r newid.
- Bydd gofyn cael dull canolbwyntiedig ac integredig tuag at gyflenwi ac os bydd y swyddogaeth bwysig hon yn cael ei hymgymryd gan y Bwrdd Effeithlonrwydd ac Arloesi mae'n bosib y bydd bwrdd yn darganfod bod ei lwyth gwaith yn anghynnaladwy.
- Gall y canlyniad gofynnol o sicrhau adnawdd cefnogi estynedig, priodol (yn nhermau gallu) canolbwyntiedig ac integredig ar gyfer cyflenwi effeithlonrwydd a gomisiynwyd gan y Bwrdd Effeithlonrwydd ac Arloesi cael ei wireddu mewn amrywiaeth o ffyrdd. Gallai amrywio o ailgyfluniad mewnol o adnoddau Llywodraeth Cynulliad Cymru i

ddatrysiadau mwy radical fel sefydlu asiantaeth effeithlonrwydd annibynnol, a dylid ymchwilio'n ymhellach i'r opsiynau.

## Anelu'n Uwch Fyth


### Dull Holl Sector Cyhoeddus

- 4.16 Bydd llawer o'r cyfleoedd mwyaf ar gyfer arbedion effeithlonrwydd yn berthnasol ar draws y Sector Cyhoeddus yng Nghymru. Er enghraifft, byddai'r mentrau effeithlonrwydd gweithrediadol a restrwyd yn gynharach yn berthnasol i bob corff cyhoeddus yng Nghymru bron. Nid yw'n gwneud fawr o synnwyr i'r rhain gael eu datblygu ar wahân. Hyd yn oed pan fydd angen cymhwyso mentrau mewn gwahanol ffyrdd ar draws y sectorau, byddai gwerth o hyd mewn cael un asiantaeth i fwrw golwg cyffredinol ar y cyfleoedd a'r dysgu.
- 4.17 Mae llawer o'r ymyraethau effeithlonrwydd targed a restrwyd yn gynharach yn berthnasol ar draws ffiniau sefydliadol hefyd neu'n gofyn am ddull integredig o weithio.
- 4.18 Yn ychwanegol i'r manteision uchod o ddull holl sector cyhoeddus mae'r potensial y gallai'r dull hwn o weithio cyflymu ethos "un sector cyhoeddus" yng Nghymru. Un sector cyhoeddus yn gwasanaethu un dinesydd, un gymuned, Cymru'n Un. Gallai hyn gynorthwyo i gyflymu'r newid o gynigion gwasanaeth â ffocws sefydliadol i gynigion gwasanaeth sy'n rhoi'r cwsmer yn gyntaf. Mae'r gwaith o sefydlu'r Bwrdd Rhaglen Effeithlonrwydd ac Arloesi yn ddiweddar yn creu'r cyfle i fynd i'r afael â'r pryderon y soniwyd amdanynt yn gynharach.

### Adnawdd Gwella ac Effeithlonrwydd

- 4.19 Yr ail broblem sy'n codi ynglŷn â chylch gwaith y trefniadau comisiynu newydd a'r adnawdd cyflenwi ategol yw p'un ai a ddylai gwmpasu'r agenda gwella. O fewn llawer o'r mentrau effeithlonrwydd y soniwyd amdanynt yn gynharach, mae synergedd rhwng yr agenda deublyg o wella ac effeithlonrwydd. Er enghraifft, mae meddwl yn ddiwastraff yn bod yn bennaf i wella perfformiad o safbwynt y cwsmer ond yn ddieithriad mae hefyd yn cynhyrchu arbedion effeithlonrwydd ystyrlon. Yn yr un modd gall cysyniad Total Place wella profiad y dinesydd a hefyd arbed arian drwy osgoi dyblygu ac integreiddio ymdrechion.
- 4.20 Ail reswm dros ystyried cyfuno'r agenda effeithlonrwydd a gwella yng Nghymru yw bod y sbardunau sy'n gwneud gwahaniaeth i'r ddau yn aml iawn yn sbardunau fel arweinyddiaeth, diwylliant a llywodraeth (fel y dangosir isod).

### Ffigur 4d – Model Ymglymiad – (mae hwn yn dangos pwysigrwydd ymglymiad ar y lefelau priodol)





## Beth Fyddai'n Rhaid Newid i Wneud i Hyn Weithio?

### Yn Gyffredinol ar draws Sector Cyhoeddus Cymru

- 4.21 Ni fydd sefydlu strwythurau mwy priodol ar ei ben ei hun yn ddigon i wireddu'r potensial ar gyfer gwneud arbedion effeithlonrwydd arwyddocaol pellach a gwella gwasanaethau. I gyflawni'r nod mae gofyn am newid yng nghyfeiriad meddwl a dulliau gweithio'r ceffylau blaen yng nghydarweinyddiaeth Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru.
- 4.22 Yr elfennau allweddol i'r newid hwn yw:
- **Rôl** - Ailasesiad o'r ffordd fwyaf effeithiol o greu gwerth cyhoeddus o fewn a rhwng y gwahanol sefydliadau sector cyhoeddus ac, yn hanfodol, rhwng llywodraeth ganolog a chyflenwi gwasanaethau lleol. Mae hyn yn gofyn am ddull system gyfan o gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae gofyn am fwy o eglurder ynghylch y rôl fwyaf effeithiol ar gyfer pob cogen ym mheiriad Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a sut mae pob cogen yn perthyn i'w gilydd er mwyn gwneud y gorau o werth cyhoeddus.
  - **Dull Canlyniadau** – Mae gofyn am ragor o bwyslais ar ganlyniadau drwy gydol y sector preifat. Gwella effeithlonrwydd – mae'r berthynas rhwng y canlyniadau a fwriadwyd a gwir ganlyniadau gwariant cyhoeddus – yn allweddol i wella gwerth cyhoeddus. Byddai dull doethach o lywodraeth yn rhoi mwy o ffocws ar ganlyniadau hirdymor yn hytrach na thargedau tymor byr sy'n aml iawn yn canolbwytio ar allbynnau. Nid yw gwneud y pethau anghywir yn economaidd yn effeithlon yn ychwanegu gwerth cyhoeddus. Wrth fynd i'r afael â gwerth cyhoeddus mae'r sector cyhoeddus yn aml iawn yn dechrau ar ben anghywir y gadwyn werth, h.y. ar y mewnbynnau yn hytrach na sicrhau bod y buddsoddiad yn cael yr effaith neu'r canlyniad a ddymunir.
  - **Undeb Pwrpas** - Cynhwysyn hanfodol ar gyfer llwyddiant yw'r deinamig sy'n deillio o'r weledigaeth rymus o un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymreig yn gwasanaethu un dinesydd, un gymuned, Cymru'n un. Gallai hwn ysgogi ymdrechion y gwasanaethau cyhoeddus oddi wrth anghenion sefydliadol yn nes tuag at anghenion dinasyddion. Mae sefydliadau Sector Cyhoeddus wedi bod yn brwydro i leihau effeithiau negyddol cylchoedd proffesiynol anghyfartal ers llawer o flynyddoedd. Her fwy yng Nghymru ar hyn o bryd yw cylchoedd sefydliadol anghyfartal.
- 4.23 Yn ffodus dylai'r her hon fod yn haws i'w goresgyn yng Nghymru gan fod modd rheoli graddfa'r ymglymiad sy'n ofynnol i hyrwyddo undod pwrpas – y ffactor allweddol yw ansawdd yr ymglymiad. Yr her i arweinyddiaeth y sector cenedlaethol a lleol yw gweithredu ac ymddwyn â chysondeb mewn ffordd sy'n hyrwyddo undod pwrpas. Er enghraifft, nid yw rhai awdurdodau lleol wedi ymglymu'n ddigonol yn y broses gydweithredol ac nid yw cyhoeddiadau diweddar lywodraeth genedlaethol, mewn meysydd sy'n effeithio ar lywodraeth leol, wedi bod yn gyson ag ysbryd a manylder y cytundeb "Dealltwriaeth Newydd" rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a Llywodraeth Leol.
- 4.24 Gallai'r Uwchgynhadledd Gwasanaethau Cyhoeddus a sefydlwyd yn ddiweddar, os caiff ei ddefnyddio'n effeithiol, ddatrys rhyw gymaint ar y materion a godwyd yma. Fodd bynnag, mae rhagor o ymwybyddiaeth ymhlith arweinwyr sector lleol o ba ymddygiadau a gweithrediadau sy'n hyrwyddo ethos un tîm gwasanaethau cyhoeddus a pha rai sy'n ei thanseilio yn hanfodol ar gyfer llwyddiant.

### Llywodraeth Leol yng Nghymru.

- 4.25 Ffordd o feddwl mwy ymwybodol ynghylch y ffordd y mae awdurdod lleol yn ychwanegu gwerth go iawn drwy wneud gwahaniaeth i fywydau pobl o ddydd i ddydd. Mae hwn yn gofyn am ddealltwriaeth gliriach o'r beth ddylai fod yn destun rheolaeth a dylanwad uniongyrchol yn lleol. Gwerth ychwanegol llywodraeth leol heb os nac oni bai yw defnyddio gwybodaeth leol fel ased i ddewis y gymysgedd briodol o ganlyniadau i gwrdd ag anghenion lleol a ffurfio polisïau i gyd-fynd ag amgylchiadau lleol.

- 4.26 Mae sofraniaeth leol felly yn fwy pwysig, yn nhermau gwerth ychwanegol, wrth gomisiynu'r canlyniadau cywir yn hytrach na chyflenwi'r canlyniadau hynny o reidrwydd. Mae'r dadleuon dros reolaeth sefydliadol unigol yn wannach fyth pan ddaw hi'n fater o seilwaith busnes. Dylai strwythurau a methodolegau busnes ailadroddus a thameidiog gael eu herio'n fwy cadarn yn nhermau darparu'r gwerth gorau e.e os oes modd darparu fframwaith gyffredinol ar gyfer ail-drefnu ein prosesau busnes yn fwy effeithiol yn genedlaethol a fyddai hefyd arwain at ragor o arbedion cyffredinol o'u gweithredu, pam felly na ddylai hyn fynd dros ben diddordebau sefydliadol lleol mwy cyfyng. Pam fod rhaid i bob awdurdod lleol redeg eu cyflogresi eu hunain? Ai hyn sydd orau ar gyfer ein dinasyddion?
- 4.27 Felly, mae sbarduno'r newid yng nghyfeiriad meddwl llywodraeth leol, sydd eisoes ar waith, i un â dealltwriaeth gliriach ynglŷn â sut mae llywodraeth leol yn ychwanegu gwerth i ddinasyddion yn hanfodol i gefnogi'r newidiadau strwythurol a argymhellir a symud tuag at safoni rhagor ar seilweithiau busnes. Mae Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a chyrrff proffesiynol (e.e. SOLACE, Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA) rôl bwysig i'w chwarae o ran hyrwyddo newid o ran cyfeiriad ac eglurdeb meddwl cliriach.
- 4.28 I awdurdodau lleol berfformio eu rôl yn well yn y meysydd hynny lle maent yn ychwanegu'r gwerth mwyaf mae gofyn am newid cyfeiriad meddwl ar lefel genedlaethol. Mae angen grymuso awdurdodau lleol a rhoi mwy o ryddid iddynt o ran y ffordd y maent yn creu canlyniadau gwasanaeth e.e. mae plethora grantiau penodol yn ddud ac yn amharu ar arloesi yn lleol.
- 4.29 Mae perygl hefyd, wrth i'r agenda ar gyfer cydweithio a gweithio mewn partneriaeth ddatblygu ymhellach, y bydd y diffyg democrataidd lleol yn cynyddu. Eto mae lle i ddatblygu ymhellach yr ased o wybodaeth leol sydd gan gynghorwyr i wneud cyrrff cyhoeddus (gan gynnwys y Cyngor) yn atebol am gynhyrchu canlyniadau effeithiol ac effeithlon yn lleol.

## Newidiadau sy'n ofynnol ar Lefel Genedlaethol

- 4.30 Mae gofyn hefyd am ailystyried y ffordd y mae llywodraeth genedlaethol yn ychwanegu gwerth. Mae hyn yn golygu'r llywodraeth yn comisiynu ar gyfer canlyniadau ar y lefel uchaf ac yna'n cyfrannu at hinsawdd a fframwaith sy'n grymuso eraill i gyflawni. Mae'r gwaith eisoes wedi cychwyn gyda'r pwyslais newydd ar ganlyniadau ond mae angen i beirianwaith llywodraeth gael ei adolygu hefyd er mwyn sicrhau newid ystyrion a chynladwy mewn arferion.
- 4.31 Yn y pendraw mae hwn yn arwain at fodel o lywodraeth genedlaethol sy'n llai ac yn fwy strategol. Nid yw'n golygu colli golwg ar y gadwyn gyflenwi gymhleth sydd yn ofynnol yn aml i gyflenwi'r canlyniadau gwasanaeth cyhoeddus gorau. Mae'n golygu sicrhau bod yr ysgogiadau a'r cymhellion ym mhob cam yn y gadwyn yn ateb y gofyn.
- 4.32 Bydd yn anodd hefyd i gynnig mwy na llywodraeth gydgyssylltiedig yn lleol oni bai bod hyn yn digwydd yn genedlaethol yn ogystal. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes wedi cymryd camau i wella'r dull o weithio'n gorfforaethol ond mae angen prif-ffrydio hyn drwy gydol y sefydliad er mwyn cynhyrchu hinsawdd fwy cyson a chydlynol ar gyfer cyflenwi cydgysylltiedig yn lleol.
- 4.33 Maes arall sy'n gofyn ail ystyriaeth gan lywodraeth genedlaethol yw'r berthynas rhwng y wladwriaeth a'r dinesydd yn ystod cyfnod estynedig o gyfyngu ar wariant cyhoeddus. Mae dwy agwedd i'r gwaith hwn:-
- **Rôl y wladwriaeth wrth reoli disgwyliadau dinasyddion mewn cyfnod o gyfyngu ar wariant cyhoeddus.** Gallai hyn fod yn nhermau lleihau'r nifer o flaenoriaethau a ddilyniar ac yn nhermau hyd a lled gwasanaethau cyffredinol.
  - **Mae yna ddisgwyliad ychwanegol y dylai'r bobl hynny sy'n gallu gwneud hynny, fod yn ddinasyddion gwell er mwyn lleihau'r galw am wasanaethau cyhoeddus neu gostau gwasanaethau cyhoeddus.** Mae hyn yn cynnwys enghreifftiau amlwg o newid mewn

ymddygiad (e.e. ailgylchu gwastraff) ond mae'n bosib ymestyn y cysyniad i feysydd eraill hefyd (e.e. addysg a rôl y rhiant yn y broses addysgu).

## Newid Diwylliant?

4.34 Y neges allweddol o'r paragraffau uchod yw bod gofyn am well ddealltwriaeth ynghylch y ffordd y mae pob haen o lywodraeth yn ychwanegu gwerth go iawn ac i sefydliadau newid o ganlyniad. Mae hyn yn golygu parodrwydd ymhlith bobl a sefydliadau i roi'r gorau i rywbeth (e.e. rheolaeth uniongyrchol dros rai materion) er lles y cyhoedd. Mae hyn yn ei dro yn gofyn am ymrwymiad o ymddiriedaeth rhwng y partion cysylltiedig ac mae angen i arweinyddion sector cyhoeddus ddatblygu mwy o ymwybyddiaeth ynghylch y math o weithrediadau ac ymddygiadau sy'n hyrwyddo ymddiriedaeth a'r rheiny sy'n ei thanseilio.

## Oes Modd i Hyn Wneud Gwahaniaeth Go iawn?

4.35 Mae'n debyg mai'r ffordd orau o ateb y cwestiwn yw drwy edrych ar ddwy o'r mentrau arfaethedig.

- **Meddwl yn Ddiwastraff** - Mae'r fethodoleg yma wedi bod o gwmpas ac wedi ei hymarfer yn y sector cyhoeddus mewn gwahanol ffyrdd ers llawer o flynyddoedd. Mae potensial y cyfraniad at arbedion effeithlonrwydd yn Llywodraeth Lleol Cymru, o leiaf, rhwng £60m a £100m y flwyddyn. Byddai'r ffigur ar gyfer Sector Cyhoeddus Cymru gyfan yn dipyn uwch. Mae'r dechneg hon wedi cael ei defnyddio mewn rhaid awdurdodau yng Nghymru mewn gwahanol ffyrdd. Er hynny, o ran potensial mae'n debyg mai dim ond ychydig iawn o ddefnydd, ar y gorau, y gwneir ohoni. Nid yw'r fframwaith presennol ar gyfer arbedion effeithlonrwydd yng Nghymru felly wedi arwain unrhyw beth yn agos i'r teulu Llywodraeth Leol, na'r sector cyhoeddus ehangach, wireddu potensial llawn y dechneg hon.
- **Total Place** - Mewn astudiaeth a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar botensial Total Place gan gynghorau Llundain rhagdybiwyd y gellid arbed hyd at 15% o'r cyfanswm gwariant cyhoeddus yn Llundain drwy fabwysiadu'r agenda Total Place ar raddfa helaeth. Byddai cymhwyso'r un lefel o arbedion yng Nghymru yn cynhyrchu arbedion a fyddai'n llawer mwy na'r £1 biliwn. Hyd yn oed os yw hwn olwg optimistaidd ar lefel yr arbedion sy'n bosibl - mae'r symiau dan ystyriaeth mor fawr y byddai gostyngiad dramatig yn yr arbedion posibl yn dal i gynhyrchu arbedion sylweddol.

Mae amlwg felly, mewn unrhyw ddadansoddiad priodoliad o'r arbedion posibl, y byddai'r ddwy fenter yma'n ymddangos yn y deg uchaf. Y risg y byddwn ei wynebu petaem yn datblygu'r fframwaith cyfredol yw na fydd modd manteisio ar botensial Total Place yn ddigon cyflym, fel gyda meddwl yn ddiwastraff, i wneud cyfraniad sylweddol i'r bwlch ariannol pan fo'r galw mwyaf amdano. Bydd yr un peth yn wir o ran mentrau eraill sydd â chynhyrchion uchel posibl.

4.36 Mae angen cefnogi llai o fentrau ar lefel genedlaethol, ond mae angen i'r gefnogaeth hwnnw arwain at gyflwyno a gwireddu buddion yn gyflym.

## Casgliadau

4.37 Prif negeseuon y bennod hon yw:

- Mae graddfa'r her yn ddigyffelyb ac yn anferthol. Ni fydd gwneud mwy o'r un peth yn cwrdd â'r gofyn ac ni fydd yn lleihau'r toriadau o ran canlyniadau gwasanaethau cyhoeddus. Mae gofyn am newid yn y ffordd y mae Sector Cyhoeddus Cymru yn trafod ei fushes. Mae'n rhaid i raddfa'r trawsffurfiant fod yn fwy ac mae'n rhaid i gamau'r moderneiddio fod yn gyflymach os ydym i lwyddo.

- Ydy hyn yn bosib? - Ydy. Mae yna gyfle aruthrol i foderneiddio cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ac i newid y ffordd yr ydym yn gwneud pethau o ben uchaf lefel llywodraeth genedlaethol i lawr i'r lefel lleol. Mae'n rhaid i raddfa'r trawsffurfiant fod yn fwy ac mae'n rhaid i gamau'r moderneiddio fod yn gyflymach os ydym i symud o'r ymylon i'r brif ffrwd. Yn yr un modd, mae modelau cyflenwi gwasanaeth newydd yn dod i'r amlwg sy'n darparu cyfleoedd nid yn unig ar gyfer arbedion effeithlonrwydd ond hefyd gwell profiad cwsmeriaid. Mae llawer o gyfleoedd yn troi o amgylch gweithio ar y cyd un ai i wneud y gorau o arbedion maint ar gyfer cyflenwi dros ardal ddaearyddol neu sefydliadol ehangach neu i osgoi dyblygiad drwy gynnig gwasanaethau mwy integredig, e.e. Total Place.
- Pa bethau sy'n rhaid iddynt ddigwydd? Gellir meithrin dull mwy canolbwyntiedig systematig a strategol drwy greu'r seilwaith angenrheidiol i gynnal hyn yn nhermau comisiynu, cyflenwi ac ymglymiad. Fodd bynnag, ni fydd newid seilwaith yn cwrdd â'r gofyn. Mae angen newid ffordd o feddwl y gydarweinyddiaeth sector cyhoeddus o amgylch gweledigaeth o un gwasanaeth cyhoeddus yn wynebu'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae hyn yn gofyn o bob sefydliad fynd ati o ddifrif i ystyried eu rôl a sut maent yn ychwanegu gwerth cyhoeddus a newid a gweithredu o ganlyniad.
- Wnaiff hyn ddigwydd? Cafwyd arwyddion calonogol hyd yn hyn yn nhermau cydnabod difrifoldeb y sefyllfa gan arweinwyr sector cyhoeddus ond mae anghysonderau yn y negeseuon o hyd a allai arwain at ddryswch a rhwystredigaeth, e.e. bod yn gyson wrth gydnabod realiti colli llawer o swyddi a gweithio gyda gweithwyr ac Undebau Llafur i esmwytháu effaith y colledion. Mae angen i bob arweinydd yng 'nghlwb' y sector cyhoeddus gyd-dynnu a chael 'un neges'.
- Mae sefydliad y Bwrdd Effeithlonrwydd ac Arloesi cenedlaethol yng Nghymru yn galonogol iawn hefyd ond i gyd-fynd ag o mae'n rhaid cael seilwaith mwy cadarn ac adnoddau gwell i'w gynnal.
- Y maes olaf i'w ystyried yw'r ysgogiad anferthol a grëwyd gan yr her ariannol hon i lywodraeth leol ailystyried ei rôl yng Nghymru. Mae yna gyfle i Llywodraeth Cynulliad Cymru ddod yn fwy strategol ac yn llai o ran maint ac i weithredu gyda dychymyg i greu hinsawdd well ar gyfer cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus lleol yn fwy llwyddiannus.

### **Y canlyniad cyffredinol ynghylch gallu Sector Cyhoeddus Cymru yn mynd i'r afael â'r her hon yn llwyddiannus yw:**

- **mae'n bosib y gellir ei gyflawni;**
- **mae rhai datblygiadau diweddar wedi bod yn bositif; ond**
- **nid ydym wedi gweld digon o newid eto i deimlo'n gwbl hyderus y bydd hyn yn cael ei wneud.**

# Appendices

# Atodiad A: Fframwaith Ddadansoddol

Mae'r **diffiniadau** canlynol yn berthnasol drwy gydol y fframwaith:

- **pwysau ar dwf na ellir eu hosgoi** – caiff y rhain ei diffinio fel costau gwasanaeth ychwanegol o ganlyniad i newidiadau mewn deddfwriaeth sydd ar wahân i'r pwysau ar gostau o ganlyniad i newid demograffig;
- **pwysau ar dwf demograffig** – caiff y rhain ei diffinio fel pwysau ar gostau oherwydd newidiadau i blant oed ysgol a'r rheiny dros 65 yn ogystal â newidiadau cyffredinol ym mhoblogaeth Cymru;
- **Prif Grŵp Gwariant - fel y defnyddir yng nghyllideb Llywodraeth Cynulliad Cymru;**
- **y bwlch ariannu - caiff hwn ei ddiffinio fel y gwarian refeniw net ar gynnal gwasanaethau ar lefel 2009-10 llai'r;**
  - i. Grant Cynnal Refeniw
  - ii. cyfran o Ardrethi Annomestig
  - iii. Incwm Y Dreth Gyngor; a
  - iv. grantiau penodol.

Yr **egwyddorion** sy'n sail i'w gwaith ymchwil yw

- gost o gynnal gwasanaethau ar lefel 2009-10;
- y gellir cyflenwi gwasanaethau ym 2009-10 yn ôl yr incwm a bennwyd yn y llyfr gwyrdd ar gyfer 2009-10;
- na fydd unrhyw newid yn yr amgylchedd gwleidyddol yn ystod y cyfnod o dan sylw; a
- bod cyfrifiadau'r bwlch ariannu posibl yn seiliedig ar dair senario – achos gorau, achos gwaethaf ac achos cymedrol.

Cymerwyd bod llinell sylfaen ar gyfer gwariant reffeniw net ym 2009-10 yn hafal i gyfanswm yr arian ar gael o'r RSG, NDR, Y Dreth Gyngor a Grantiau Penodol.

- **gwariant ar gyflogau** - cyfrifwyd yr elfen cyflogau athrawon a chyflogau heb fod yn gyflogau athrawon o'r gwariant reffeniw net sy'n seiliedig ar ganran hanesyddol o wariant awdurdod lleol ar yr eitemau hyn. Pennwyd y canran ar sail data a ddarparwyd i CLILC gan Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer 2002-03 a 2007-08
- Cafodd hwn ei gyfrifo gan ddefnyddio'r canran hanesyddol o wariant awdurdodau lleol ar yr eitemau hyn. Pennwyd y canran ar sail data a ddarparwyd i CLILC gan Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer 2002-03 a 2007-08
- **Demograffeg** - rhoddwyd ystyriaeth i gynnydd ym mhoblogaeth gyffredinol Cymru fel y modelwyd gan Ystadegau Cenedlaethol y DU am y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2014. Rhoesom ystyriaeth hefyd i Ystadegau Cenedlaethol y DU fodelu ar gyfer y newidiadau posibl ym mhoblogaeth Cymru o Blant Oed Ysgol a'r rheiny sy'n hyn na 65 hyd at 31 Mawrth 2014; a
- **pwysau ar wasanaethau** - casglwyd gwybodaeth oddi wrth grwpiau proffesiynol sy'n bodoli yng Nghymru fel Cymdeithas Trysoryddion Cymru, Cymdeithas Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru ayyb i ddarparu costau ar gyfer y pwysau ar wasanaethau. SOLACE a benderfynodd gan ba grwpiau rhanddeiliad y casglwyd yr wybodaeth oddi wrthynt. Cyfrannodd Adroddiad yr Is-grŵp Gwariant at y dadansoddiad hwn hefyd.

## Fframwaith Ddadansoddol - Modelu Senarios

Mae'r tablau a'r adroddiad canlynol yn amlinellu'r tri senario a fodelwyd.

### Achos cymedrol

Yn y senario hwn rhagdybiwyd y byddai alldro'r flwyddyn flaenorol yn codi fel y diffinnir yn Nhabl A1 isod:

**Tabl A1 – Achos Cymderol**

	2010-11	2011-12	2012-13	2013-14
	%	%	%	%
Chwyddiant cyflogau nad ydynt yn gyflogau athrawon	1.00	1.00	1.50	2.50
Chwyddiant cyflogau athrawon	2.30	1.00	1.50	2.50
ERS ychwanegol ar bensiynau ar ben graddfa'r flwyddyn flaenorol			5% cynnydd yng nghyfraniad cyflogwyr. Mae hwn wedi cael ei ymestyn dros gyfnod o 3 blynedd er mwyn lleihau'r effaith ar unrhyw flwyddyn unigol	
Chwyddiant nad ydyw'n gysylltiedig â chyflogau	2.50	2.50	2.75	2.75
Refeniw ac Ardrethu Annomestig	2.10	-2.00	-2.00	-2.00
Grantiau Penodol.	2.10	-2.00	-2.00	-2.00
Y Dreth Gyngor	3.00	3.00	3.00	3.00

Ffynhonnell: Deloitte

- **Chwyddiant cyflogau heb fod yn gyflogau athrawon** - rhagdybiwyd y bydd hwn yn 1% ym 2010-11 ac 2011-12 ac y bydd yn codi i 1.5% ym 2012-13 a 2.5% 2013-14, gan gydnabod na fydd y cyfyngiad ar wariant yn gynladwy yn y tymor hir yn enwedig wrth i'r economi wella.
- **Chwyddiant cyflogau athrawon** - 2.3% ar gyfer 2010-11 gan mai trydedd flwyddyn trefniadau cytunedig ydyw. Rhagdybir mewn blynyddoedd i ddod y bydd yn unol â chwyddiant cyflog nad ydynt yn gyflogau athrawon.
- **chwyddiant pensiynau** - ystyrir hwn fel rhan o chwyddiant cyflogau ar gyfer 2010-11 ond bydd codiadau ychwanegol o 5% yn cael eu cymhwyso dros y cyfnod 2011-12 hyd at 2013-14 a bydd ei gyflwyniad yn cael ei esmwytháu i sicrhau na fydd unrhyw newid unigol yn y camau;
- **Chwyddiant heb fod yn gyflogau** - bydd hwn ar sail cyfartaledd dachwyddiant Cynnyrch Mewnwladol Crynswth fel yr esboniwyd yng Nghyllideb 2009 ac adroddiadau'r Sefydliadau Astudiaethau Ariannol.
- **grant cynnal refeniw** – rydym wedi cymryd y cynnydd ar gyfer 2010-11 o'r gyllideb a gyhoeddwyd gan Llywodraeth Cynulliad Cymru. Rydym wedyn wedi rhagdybio y bydd cyllid Cyllideb Refeniw Cynulliad Cymru yn gostwng 2% fesul blwyddyn.
- **grantiau penodol** – mae hwn yn rhagdybio y bydd gostyngiad cyfartal i hynny yn y Grant Cynnal Refeniw o 2009-10 i 2013-14 heb ddiogelu unrhyw grant unigol; ac
- **Incwm y Dreth Gyngor** - rhagdybir y bydd yn cynyddu ar gyfartaledd cyffredinol o 3%.

## Achos gwaethaf – gwariant uchaf ac incwm isaf

Yn y senario hwn rhagdybiwyd y byddai alldro'r flwyddyn flaenorol yn codi fel y diffinnir yn Nhabl A2 isod:

**Tabl A2 - Bwlch Ariannu Achos Gwaethaf**

	2010-11	2011-12	2012-13	2013-14
	%	%	%	%
Chwyddiant cyflogau nad ydynt yn gyflogau athrawon	2.30	2.00	3.00	3.25
Chwyddiant cyflogau athrawon	2.30	2.00	3.00	3.25
ERS ychwanegol ar bensynau ar ben graddfa'r flwyddyn flaenorol			7% cynnydd yng nghyfraniad cyflogwyr. Mae hwn wedi cael ei ymestyn dros gyfnod o 3 blynedd er mwyn lleihau'r effaith ar unrhyw flwyddyn unigol	
Chwyddiant nad ydyw'n gysylltiedig â chyflogau	2.75	3.25	3.00	3.25
Grant Cynnal Refeniw ac Ardrethi Annomestig	2.10	-3.00	-3.00	-3.00
Grantiau Penodol.	2.10	-3.00	-3.00	-3.00
Y Dreth Gyngor	2.00	2.00	2.00	2.00

*Ffynhonnell: Deloitte*

- **Chwyddiant cyflogau heb fod yn gyflogau athrawon** - 2.30% yn unol â'r lefel gytunedig ar gyfer athrawon ym 2010-11. Rhagdybir y bydd y cyfyngiad ar gyflogau yn parhau ym 2011-12 ac wedi hynny yn unol â chwyddiant heb fod yn gyflogau tan 2013-14.



- **Chwyddiant cyflogau athrawon** - 2.3% ar gyfer 2010-11 gan mai trydedd flwyddyn trefniadau cytunedig ydyw. Mae hwn yn rhagdybio y bydd cyfyngiad ym 2011-12, ac wedi hynny'n parhau ar lefel chwyddiant heb fod yn gyflogau ar gyfer y blynyddoedd tan 2013-14.
- **chwyddiant pensiynau** - bydd hwn yn cael ei ystyried fel rhan o chwyddiant cyflogau ar gyfer 2010-11 ond bydd codiad ychwanegol o 7% yn cael ei gymhwyso dros y cyfnod 2011-12 hyd at 2013-14 a bydd ei gyflwyniad yn cael ei esmwytháu i sicrhau na fydd unrhyw newid unigol yn y camau;
- **Chwyddiant heb fod yn gyflogau** - bydd hwn ar sail cyfartaledd datchwyddiant Cynnyrch Mewnwladol Crynswth fel yr esboniwyd yng Nghyllideb 2009 ac adroddiadau'r Sefydliadau Astudiaethau Ariannol.
- **grant cynnal refeniw** – rydym wedi cymryd y cynnydd ar gyfer 2010-11 o'r gyllideb a gyhoeddwyd gan Llywodraeth Cynulliad Cymru. Rydym wedyn wedi rhagdybio y bydd Terfyn Gwariant Adrannol Cynulliad Cymru yn gostwng 3.0% ar gyfer y blynyddoedd sy'n weddill o'r model.
- **grantiau penodol** – mae hwn yn rhagdybio y bydd gostyngiad cyfartal i hynny yn y Grant Cynnal Refeniw o 2009-10 i 2013-14 heb ddiogelu unrhyw grant unigol; ac
- **Incwm Y Dreth Gyngor** - rhagdybir cynnydd cyffredinol o 2%.

### Achos gorau – gwariant isaf, incwm uchaf

Yn y senario hwn rhagdybiwyd y byddai alldro'r flwyddyn flaenorol yn codi fel y diffinnir yn Nhabl A3 isod:

**Tabl A3 – Bwlch Ariannu Achos Gorau**

	2010-11 %	2011-12 %	2012-13 %	2013-14 %
Chwyddiant cyflogau nad ydynt yn gyflogau athrawon	---	---	1.00	2.00
Chwyddiant cyflogau athrawon	2.30	---	1.00	2.00
ERS ychwanegol ar bensiynau ar ben graddfa'r flwyddyn flaenorol			3% cynnydd yng nghyfraniad cyflogwyr. Mae hwn wedi cael ei ymestyn dros gyfnod o 3 blynedd er mwyn lleihau'r effaith ar unrhyw flwyddyn unigol	
Chwyddiant nad ydyw'n gysylltiedig â chyflogau	2.25	1.50	1.75	2.25
Refeniw ac Ardrethu Annomestig	2.10	-1.00	-1.00	-1.00
Grantiau Penodol.	2.10	-1.00	-1.00	-1.00
Y Dreth Gyngor	5.00	5.00	5.00	5.00

*Ffynonellau: Ffynhonnell:Deloitte*

- **Chwyddiant cyflogau heb fod yn gyflogau athrawon** - rydym wedi rhagdybio y bydd cyflogau'n cael eu rhewi ar gyfer 2010-11 a 2011-12 ac yna'n dechrau codi ond yn parhau i fod o dan lefel chwyddiant.

- **Chwyddiant cyflogau athrawon** - 2.3% ar gyfer 2010-11 gan mai trydedd flwyddyn trefniadau cytunedig ydyw. Wedi hynny rydym wedi rhagdybio bod y codiadau'n unol a chwyddiant cyflogau heb fod yn gyflogau athrawon.
- **chwyddiant pensiynau** - bydd hwn yn cael ei ystyried fel rhan o chwyddiant cyflogau ar gyfer 2010-11 ond bydd codiad ychwanegol o 3% yn cael ei gymhwyso dros y cyfnod 2011-12 hyd at 2013-14 a bydd ei gyflwyniad yn cael ei esmwytháu i sicrhau na fydd unrhyw newid unigol yn y camau;
- **Chwyddiant heb fod yn gyflogau** - bydd hwn ar sail cyfartaledd dachwyddiant Cynnyrch Mewnwladol Crynswth fel yr esboniwyd yng Nghyllideb 2009 ac adroddiadau'r Sefydliadau Astudiaethau Ariannol.
- **grant cynnal refeniw** – rydym wedi cymryd y cynnydd ar gyfer 2010-11 o'r gyllideb a gyhoeddwyd gan Llywodraeth Cynulliad Cymru. Rydym wedyn wedi rhagdybio y bydd Terfyn Gwariant Adrannol Cynulliad Cymru yn gostwng 1% ar gyfer y blynyddoedd sy'n weddill o'r model.
- **grantiau penodol** - yn unol â Chyllideb Cyffredinol Cynulliad Cymru; a
- **Incwm Y Dreth Gyngor** - rhagdybir cynnydd cyffredinol o 5%.

# Atodiad B

*Mae'r esiamplau canlynol yn dangos rhai datrysiadau arloesol ar waith ar draws y sector cyhoeddus.*

## *Boston Gofal Iechyd i'r Digartref*

### **Sbardun ar gyfer Newid**

- Rhoddodd myfyriwr PhD gronfa ddata at ei gilydd i ddilyn trywydd y rhai oedd yn dod i mewn i loches i'r digartref - roedd y rhan fwyaf ohonynt yn ymwelwyr dros dro, ond roedd 10% yn barhaol ddigartref, yn aml gydag anghenion lluosog
- Rhaglen Gofal Iechyd i'r Digartref Boston - dilynwyd 119 o bobl barhaol ddigartref am 5 mlynedd yn Boston.
- Darganfuwyd eu bod yn costio'r wladwriaeth o leiaf \$19m y flwyddyn o ran costau meddygol yn unig

### **Dull Gweithio**

- Er bod gwasanaethau'n ymateb yn effeithlon i'r broblem, roedd y dull newydd o weithio yn ymdrechu i fynd i'r afael â gwraidd y broblem
- Rhoddwyd fflat i bob person oedd yn barhaol ddigartref

### **Canlyniadau**

- Lleihad mewn costau – mae darparu fflat yn costio rhyw draean o'r gost o fyw ar y stryd
- Er gwaetha'r costau uchel cychwynnol mewn cysylltiad â buddsoddi mewn fflat o'r newydd, y canlyniad oedd enillion effeithlonrwydd a oedd yn sylweddol yn fwy na'r rheiny sy'n gysylltiedig ag anfon person i lochesi ychydig yn rhatach.

## *UDA –Sut y gall TG alluogi Ysgolion y 21ain Ganrif*

### **Sbardun ar gyfer Newid**

- Pryder bod TG yn atgyfnerthu dulliau presennol o hyfforddiant athro yn hytrach na'u gweddnewid.

### **Dull Gweithio**

- Cydnabod bod y model ysgol gonfensiynol fel bws yn teithio yn ei flaen ond gyda'r athro yn sefyll ar y pen blaen yn dangos golygfeydd diddorol a phwysig ond yn dweud wrth y teithwyr na, ni allwn adael i chi fynd i ymchwilio beth sydd i lawr y ffordd acw.
- Defnyddio TG i gael gwared â'r model masgynhyrchiad i'r model addasiad unigol
- Rhoi'r ffocws ar ddysgu yn hytrach nac addysgu
- Ysgol y Dyfodol yn Philadelphia – partneriaeth rhwng Microsoft ac Ysgolion Preifat

### **Canlyniadau**

- Llai o bwyslais ar addysgu mewn adeiladau ysgol traddodiadol yn golygu rhyddhau'r asedion hynny. Addysgu'r plant i weithio mewn timau dysgu gyda hwylusydd sy'n oedolyn.

## Gwasanaethau a Rennir yn Suffolk

### Sbardun ar gyfer Newid

- Gofyniad am fuddsoddiad yn y seilwaith TGCh a'r angen i wella profiad cwsmeriaid wrth iddynt ddelio gyda'r Cyngor
- Yr angen i annog cydweithredu rhwng adrannau a chyflenwi arbedion effeithlonrwydd

### Dull Gweithio

- Contract 10 mlynedd rhwng BT, Cyngor Rhanbarth Canol Suffolk a Chyngor Sir Suffolk
- Creu cwmni cyd-fenter newydd o'r enw Customer Service Direct (CSD)
- Rhoddodd BT £50m i mewn i'r project fel buddsoddiad mewn ail-gynllunio prosesau busnes, rheoli newid technolegol a hyfforddiant
- Trosglwyddwyd staff o gynghorau i'r CSD er mwyn cynnal cysondeb a gwarchod swyddi
- Mae CSD yn darparu amrywiaeth o wasanaethau o'r dreth gyngor i fudd-daliadau tai - darperir cyngor dros y ffon, ar y we ac mewn e-byst a chanolfannau galw heibio

### Canlyniadau

- Mae safonau cyflenwi gwasanaethau i gwsmeriaid wedi gwella - lefelau bodlondeb cwsmeriaid 95 - 97%
- Arbedion o £66m o leiaf dros y ddeng mlynedd nesaf - costau cyflenwi TG wedi gostwng 25%Arbedion

## Gwasanaethau Cyhoeddus Cyfranogol – Mewn Model Rheoli

### Sbardun ar gyfer Newid

- Gwariant awdurdod lleol ar ofal cymdeithasol wedi codi 13.4% rhwng 2001/02 a 2003/04
- Yn draddodiadol, prin iawn y comisynwyd gwasanaethau ar gyfer yr unigolyn; yn hytrach mae'n rhaid i'r cymorth gyd-fynd â'r cymorth a drefnir gan yr awdurdod

### Dull Gweithio

- System gymorth hunan gyfarwyddyd ar gyfer gofal cymdeithasol gyda'r cleientiaid yn rheoli sut maent yn byw a'r cymorth y maent ei angen
- Cynllun peilot ym 2003 yn cynnwys 6 awdurdod ac, erbyn 2007, roedd 107 o gynghorau'n defnyddio'r model
- Caiff ymgeiswyr eu hasesu a rhoddir adnoddau iddynt brynu cymorth
- Bydd rhaglen gymorth hunan gyfarwyddyd yn cael ei pharatoi sy'n disgrifio'r hyn y maent am ei gyflawni a sut y byddant yn defnyddio'u cyllid i gyflawni'r nodau hynny - rhaid i'r cynlluniau gwrrdd ag amcanion llywodraethol a'u cymeradwyo gan reolwr gofal awdurdod lleol
- Mae'r model yn annog unigolion i gael gwerth am arian.

### Canlyniadau

- Dywedodd 77% o'r cyfranogwyr bod eu hansawdd bywyd wedi gwella o ganlyniad i'r dull hwn o weithio.
- Arbedion costau o ryw 10% o'u cymharu â modelau traddodiadol

## *Prydau Ysgol am Ddim Ar-lein*

### **Sbardun ar gyfer Newid**

- Cofrestrwyd mwy nag un filiwn o blant i gael Prydau Ysgol am Ddim yn Lloegr.
- Mae'r broses cyflwyno cais presennol sy'n cynnwys cyflwyno cais papur ynghyd a thystiolaeth o fudd-dal cymhwysol - yn ychwanegu cryn amser at y broses ymgeisio.

### **Dull Gweithio**

- Project a ariannwyd gan DCSP fel rhan o raglen ehangach – Porth i Wasanaethau Addysg
- Lanswyd hyb ym 2008 i ddarparu gwasanaeth ar-lein i awdurdodau lleol wirio cymhwysra rhieni yn erbyn data llywodraeth ganolog.
- Mae'n cynnwys proses ddi-dor o'r naill ben i'r llall ar gyfer cyflwyno cais am brydau ysgol mewn un broses syml a hawdd - yn gynwysedig mae gwiriadau cymhwysra amser real a'r gallu i anfon hysbysiadau awtomataidd i ysgolion a hysbysiadau cymhwysra i awdurdodau lleol
- Ymgwymerwyd â phrojectau gan Gyngor Sir Hertfordshire a Chyngor Bwrdeistref Metropolitan Tameside.

### **Canlyniadau**

- Cost o 6c fesul cais naill ben i'r llall o'i gymharu â £9.14 am gyflwyno cais person wrth berson.

## *Denver, Colorado – Marchnad Dalebau ar gyfer Therapyddion*

### **Sbardun ar gyfer Newid**

- Cydnabyddiaeth fod diffyg effeithlonrwydd cyflenwi gwasanaethau.

### **Dull Gweithio**

- Rhoddwyd cyllidebau personol i ddefnyddwyr i roi'r cyfle iddyn nhw ddewis eu gwasanaethau eu hunain.
- Datblygu marchnad dalebau ar gyfer therapyddion
- Pobl yn defnyddio'r talebau dim ond pan oedd gwir angen arnyn nhw

### **Canlyniadau**

- Gostyngiad yng nghostau fesul awr gwasanaethau therapi o \$41.61 i \$27.44 (effeithlonrwydd o 34%)
- Arbedion o ostwng gor-gapasiti yn aml iawn yn gynwysedig mewn systemau sy'n canolbwyntio ar wasanaeth

## Projectau Partneriaethau ar gyfer Pobl Hŷn

### Sbardun ar gyfer Newid

- Gwelwyd bod angen newid cynladwy yn y pwyslais ar ddefnyddio adnoddau ar gyfer gofal sefydliadol ac mewn ysbyty tuag at ymyraethau targed cynharach ar gyfer pobl hyn yn y gymuned.

### Dull Gweithio

- Mae POPPs yn brojectau a redir ar y cyd gan awdurdodau lleol a sefydliadau preifat a thrydydd sector ar draws 29 lleoliad peilot.
- Y nod oedd creu gwell trefniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth a darparu ymatebion sy'n canolbwyntio ar y person ac integredig ar gyfer pobl hyn.
- Mae'r lleoliadau wedi gwneud defnydd effeithiol o amrywiaeth eang o adnoddau, gwasanaethau a sgiliau sydd ar gael yn y trydydd sector.

### Canlyniadau

- Mae defnyddwyr wedi adrodd bod dangosyddion ansawdd bywyd wedi gwella mae amrywiaeth o feysydd.
- Credir taw gostyngiad yn y defnydd o welyau argyfwng mewn ysbytai yw prif ffynhonnell arbedion effeithlonrwydd - am bob £1 a gaiff ei wario ar POPPs, arbedir 73p saved on the use of hospital beds<sup>73c</sup> ar y defnydd o welyau ysbyty
- Roedd defnyddwyr gwasanaethau POPP yn defnyddio llai ar unedau Damweiniau ac Argyfwng, yn treulio llai o amser yn yr ysbyty, ond yn defnyddio gweithiwr cymdeithasol a Meddygon Teulu ychydig yn fwy – gan arbed cost cymedr o £410 y person dros flwyddyn

## Gorllewin Awstralia - Gwasanaethau a Rennir

### Sbardun ar gyfer Newid

- Mabwysiadwyd Gwasanaethau a Rennir yn dilyn argymhellion Gweithlu Adolygu Mecanwaith Llywodraeth 2002
- Anelwyd i sicrhau cynladwyedd ariannol llywodraeth leol a mynd i'r afael ag aneffeithlonrwydd a dyblygiad yn y sector cyhoeddus - yn wreiddiol roedd gan 49 o'r asiantaethau mwyaf 21 o systemau ariannol gwahanol, 12 systemau Adnoddau Dynol ac 19 systemau rheoli gwybodaeth.

### Dull Gweithio

- Sefydlu gwasanaethau a rennir ar gyfer cyflenwi Gwasanaethau Corfforaethol i bob Asiantaeth Lywodraethol (gan gynnwys systemau ariannol, adnoddau dynol, cyflogresi a TG).
- Canolfan gwasanaethau a rennir i gwrdd â mwy na 90% o anghenion yr asiantaethau mwyaf.
- Creodd y rhaglen arferion caffael newydd yn y Llywodraeth gyfan hefyd.
- Cychwynnwyd ar y rhaglen ym 2003 a'i rhoi ar waith o ganol 2005 hyd at ddiwedd 2008

### Canlyniadau

- Arbedion disgwylidig o \$50m y flwyddyn o 2005 ymlaen – ar sail colli oddeutu 700 o swyddi cyfwerth ag amser llawn a chyflwyno systemau safonedig.

## *Sir Cernyw – Trawsnewid Gwasanaethau Plant*

### **Sbardun ar gyfer Newid**

- Cafodd y Cyngor radd perfformiad am ei Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Plant a oedd yn dangos ei fod yn darparu gwasanaethau digonol yn gyffredinol ond annigonol mewn perthynas â phlant sy'n agored i niwed
- Roedd cyfuno'r adran Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol Plant mewn Cyfarwyddiaeth newydd wedi methu cyflenwi'r buddiannau disgwylidig - strwythurau rheoli di-syfl a diffyg integreiddiad.

### **Dull Gweithio**

- Rhaglen drawsffurfio a gyflawnwyd ym 2007
- Gwnaethpwyd gwaith ymyraethol angenrheidiol er mwyn sefydlu arfer gorau a sicrhau bod y Cyngor yn gwella ei rôl ddiogelu mewn perthynas â phlant sy'n agored i niwed.
- Datblygwyd Model Gweithredu Targed i wella'r canlyniadau, rhoi plant wrth galon gwasanaethau, gwthio buddiannau Cyfarwyddiaeth gyfunol a symud tuag at ddull comisiynydd o weithio.
- Ymglyfuno hyn â Phroject Gwella Prosesau a fapiodd y prosesau, amseriadau a chostau presennol.

### **Canlyniadau**

- Gwelwyd gwelliant yn y sgoriau asesu o fewn 12 mis yn nhermau diogelu plant (o annigonol i ddigonol) a'r capasiti i wella (digonol i dda).
- Amcangyfrifwyd cyfle i arbed arian gwerth £1.9m

## *Cyngor Swydd Henffordd - Trawsnewid Gofal Cymdeithasol*

### **Sbardun ar gyfer Newid**

- Roedd y Cyngor wedi cael graddfa perfformiad cynllunio, paratoi ac asesu isel mewn perthynas â gofal cymdeithasol.
- Pwysau ariannol o fewn y Cyngor ar angen i ddefnyddio adnoddau'n effeithiol
- Gwendidau yn y seilwaith gan gynnwys systemau TG tameidiog a oedd yn ddud i'w cynnal

### **Dull Gweithio**

- Rhan o Raglen Trawsnewid Corfforaethol Swydd Henffordd.
- Canolbwyntiodd ffrwd waith Gofal Cymdeithasol ar gynllunio Model Gweithredu Targed yn cynnwys arfer gorau ac ymgynghori eang a chleientiaid.
- Gweithredu system TG Gofal Cymdeithas ar draws Gwasanaethau Plant ac Oedolion i leihau'r amser a gaiff ei wario ar weinyddiaeth a chreu gwasanaeth cwsmeriaid mwy ymatebol. Amserlen 5 mlynedd - 2007 i 2012

### **Canlyniadau**

- Amcangyfrifir arbedion o £5m y flwyddyn ar draws y rhaglen drawsffurfio.

## *Wiltshire – Grym Gwario Cyfunol*

### **Sbardun ar gyfer Newid**

- Grym gwario cyfyngedig ysgolion unigol yn arwain at gostau uwch.

### **Dull Gweithio**

- Creu cymuned brynu ysgolion ym 2006 i gynyddu grym prynu drwy gysylltu 400 o brynwyr mewn 240 o ysgolion.
- System ar-lein sy'n cydgasglu'r galw gyda'i gilydd i alluogi un ysgol i gael prisiau ar ran yr holl ysgolion
- Cynigir yr opsiynau a nodwyd i bob ysgol fel y gallant benderfynu p'un i archebu ai beidio - bydd pob cais yn aros yn gais unigol a bydd y penderfyniad i brynu yn nwylo'r ysgol dan sylw.
- Mae'r categorïau prynu poblogaidd yn cynnwys TGCh, papur swyddfa a chelfi

### **Canlyniadau**

- Enillodd y gymuned wobwr rheoli cyflenwadau Sefydliad Siartredig Caffael a Chyflenwi ym 2007
- Arbedwyd arian gwerth £260,000 ac arbedion heb fod yn arian o 1,400 awr o amser staff drwy'r ceisiadau am brisiau

## *Trysorlys ei Mawrhydi – Project Cyflogresi Adnoddau Dynol*

### **Sbardun ar gyfer Newid**

- Sefydlwyd y project fel rhan o raglen effeithlonrwydd yn ystod Cyfnod Adolygu Gwariant 2004
- Cyflenwi'r gyflogres yn draddodiadol yn cynrychioli arbedion maint a chostau uchel
- Proses yn defnyddio llawer o bapur gyda chymhareb staff cyflogres i weithwyr uchel
- Cyfartaledd cost o fewn adrannau oedd £6 am bob slip tal

### **Dull Gweithio**

- Datblygwyd fframwaith caffael safonol a oedd yn caniatáu i holl Adrannau Llywodraeth gaffael gwasanaethau cyflogresi
- Bellach mae'r gwasanaeth yn cael ei ddefnyddio gan fwy na 90 o adrannau (190,000 o weithwyr)
- Defnyddio cynnyrch cyffredinol a gweithdrefnau safonol i leihau costau cynnal a galluogi'r gwaith o gyflwyno prisiau cost fesul slip tal symlach.

### **Canlyniadau**

- Lleihad mewn costau o tua 30% (2006 ymlaen) gyda disgowntiau mwy wrth i faint y gwaith gynyddu
- Gwasanaeth sy'n gweithredu ar gymhareb o 1:1500 staff cyflogresi i weithwyr



## *Total Place – Galw a Chyfrif Cumbria*

### **Sbardun ar gyfer Newid**

- Adroddiad a gomisiynwyd yn Ebrill 2008 gan LCLG; Asiantaeth Gwella a Datblygu a'r LGA yn dilyn Deddf Cymunedau Cynladwy (2007).
- Anhawster o ran mesur llif gwariant cyhoeddus er mwyn nodi cyfleoedd posibl ar gyfer arbedion effeithlonrwydd ac angen cydnabyddedig am ragor o gydweithio i wella'r gwaith o gyflenwi gwasanaethau.

### **Dull Gweithio**

- Dull o weithio mewn dau gam: Proses 'gyfrif' i fapio'r arian sy'n llifo drwy Cumbria a phroses i nodi'r ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu cyflenwi ar y rheng flaen - cyflawnwyd Rhagfyr 2008
- Gwahanu'r gwariant gan gyrff yn Cumbria oddi wrth wariant gan gyrff tu allan i Cumbria
- Proses blymio i lawr lle rhoddir mwy o ffocws ar feysydd penodol fel costau gweinyddol neu grwpiau penodol fel pobl ifanc
- 13 o gynlluniau peilot pellach wedi'i sefydlu i wthio'r fenter yn ei blaen ar sail genedlaethol

### **Canlyniadau**

- Mae'r project wedi mapio £7.1bn o wariant ac wedi amlygu meysydd lle gellir gwneud arbedion pellach

## *Cyngor Sir Swydd Gaerlŷr - Newid Strategol*

### **Sbardun ar gyfer Newid**

- Nodwyd yr angen i gynhyrchu arbedion y gellir eu troi'n arian ac i gwrdd â disgwyliadau cynyddol cwsmeriaid mewn cyfnod lle mae ansicrwydd economaidd byd eang ar gynydd

### **Dull Gweithio**

- Moderneiddio gwasanaethau cymorth - rhoi technoleg Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid ar waith, defnyddio dull canolfan gyswllt rhithwir a strategaeth cysylltu â chwsmeriaid newydd
- Gwneud rheoli perfformiad yn rhan o'r project a sicrhau bod ennill elw ar fuddsoddiadau wrth wraidd y project a'r broses gwneud penderfyniadau
- Creu strwythur rheoli rhaglen effeithiol gyda phrif swyddog yn atebol am yr holl wahanol rannau o'r rhaglen, a bod gyda phob project adnoddau a strwythur rheoli clir a diffiniedig
- Amserlen 4 mlynedd - 2006 i 2006

### **Canlyniadau**

- Y nod yw arbed £22m y flwyddyn erbyn 2010
- Mae'r cyngor wedi gwneud arbedion o ryw £28m hyd yn hyn, sy'n uwch na'u targed gwreiddiol
- Enillodd y Cyngor wobwr Cyngor y Flwyddyn Cronicl Llywodraeth Leol 2009

## *Rheoli Cyfleuster Hamdden - Trosglwyddo i Fenter Gymdeithasol*

### **Sbardun ar gyfer Newid**

- Anhawster gyda sicrhau cydbwysedd o ran blaenoriaethau'r cyngor ehangach a rheoli canolfan hamdden

### **Dull Gweithio**

- Trosglwyddo'r gwaith o reoli canolfannau hamdden i fentrau cymdeithasol y cyfeirir atynt fel Sefydliadau neu Ymddiriedolaethau Nad Ydynt yn Dosbarthu Elw - sydd bellach a mwy na 100 o ymddiriedolaethau ar draws y DU
- E.e. sefydlu Bay Leisure gan Gyngor Sir Abertawe i redeg Canolfan Hamdden Abertawe

### **Canlyniadau**

- Gwella'r ffocws ar reoli'r gwasanaeth - mae llai o angen i sicrhau cydbwysedd o ran blaenoriaethau'r cyngor ehangach wrth ddefnyddio cyfrwng menter gymdeithasol i reoli gwasanaeth yn sicrhau bod yr amcanion cymdeithasol yn cyd-fynd ag amcanion cyngor
- Gwella'r ffocws busnes, yn enwedig o ran cynhyrchu incwm a rhywbeth nad yw'n nodweddiadol o gynghorau
- Tax benefits from transfer of management to a social enterprise. Buddion treth o drosglwyddo'r gwaith rheoli i fenter gymdeithasol Opens up additional charitable, sponsorship and other income generating opportunities – typical six figure savings Mae'n agored i gyfleoedd cynhyrchu incwm ychwanegol fel elusennau, nawdd ac incwm arall - gydag arbedion chwe ffigur yn nodweddiadol

## *Sunderland Home Care Associates*

### **Sbardun ar gyfer Newid**

- Yr angen i wella sgiliau a lefel cymwysterau yn yr ardal
- Llwyddiant blaenorol wrth gymhwyso model menter gymdeithasol ac wedi nodi cyfle i fabwysiadu'r dull hwn o weithio gyda gwasanaethau gofal yn y cartref.

### **Dull Gweithio**

- Mabwysiadu model menter gymdeithasol ar gyfer cyflenwi gwasanaethau uniongyrchol
- Cyflenwi gofal i fwy na 500 o bobl mewn oed a phobl ag anableddau
- Cyflogi bron 200 o breswylwyr lleol o dan anfantais a'r gweithwyr sydd berchen y cyfan

### **Canlyniadau**

- Trosiant gwerthu o £1.75m
- Gofal o ansawdd uchel
- Gweithwyr wedi ennill gwaith a chymwysterau

## *Partneriaeth Caffael Gogledd Cymru*

### **Sbardun ar gyfer Newid**

- Gofyniad i leihau costau drwy weithio ar y cyd - agendau 'Gwneud Cysylltiadau'
- Mae cynghorau Gogledd Cymru yn prynu tua £400m o nwyddau bob blwyddyn, ond yn defnyddio dull gwaith datganoledig at gaffael

### **Dull Gweithio**

- Creu partneriaeth yn cynnwys chwe chyngor yng Ngogledd Cymru – mae'r bartneriaeth ar waith ers diwedd 2008
- Caffael ar sail ranbarthol er mwyn bod mewn sefyllfa gryfach wrth drafod prisiau gyda chyflenwyr
- Penodi tîm bach o staff i weithio gyda swyddogion proffesiynol drwy gydol y rhanbarth i brynu nwyddau fwy ar y cyd
- Gweithio'n agos a chyflenwyr lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod busnesau lleol mewn lle da i fanteisio ar gyfleoedd i ennill gwaith drwy'r trefniadau newydd

### **Canlyniadau**

- Y targed yw arbed tua £2m y flwyddyn

## *Fframwaith Gwerth Cymru*

### **Sbardun ar gyfer Newid**

- Ymrwymiad Cymru'n Un i weithio a busnesau a gefnogir a chyflawni buddion cymunedol drwy gaffael
- Gofyniad i leihau costau ar draws y sector cyhoeddus
- Diffyg cydlynant o ran y dull caffael

### **Dull Gweithio**

- Fframweithiau Gwerth Cymru sy'n rheoli fframwaith cytundebau ar gyfer caffael ar sail Cymru gyfan
- Mae'r fframwaith yn agored i bob sefydliad sector cyhoeddus ac yn cyflenwi arbedion main a ddiogelir drwy gydweithio ar draws y cyfan o sector cyhoeddus Cymru
- Mae enghreifftiau o'r eitemau a gafaelwyd drwy'r fframwaith yn cynnwys: Cyfarpar a gwasanaethau TG, papur swyddfa a hysbysebion cyfryngau newydd

### **Canlyniadau**

- Mae fframweithiau Gwerth Cymru wedi arbed tua £56.7m i sector cyhoeddus Cymru